# Amddiffyn Plant yn Effeithiol

## Gwerthusiad Prosiect

## Mawrth 2022

**Bruce Thornton**

**Ymgynghorydd a hyfforddwr yng gofal cymdeithasol**

**Awst 2022**

**Gwerthusiad o Brosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol**

**Cynnwys** **Rhif Tudalen**


1. **Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion** **3**
2. **Awdur yr adroddiad** **5**
3. **Prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol** **6**
4. **Y Cyd-destun** **6**
5. **Cwmpas yr gwerthusiad** **7**
6. **Methodoleg** **8**
7. **Cyfweliadau** **9**
8. **Casgliadau** **10**
9. **Atodiadau**
   - **A. Dadansoddiad o setiau data Gwynedd** **12**
   - **B. Dadansoddiad o'r cyfweliadau** **14**
   - **C. Gwerthusiad Mewnol** **27**
   - **D. Briff Gwerthuso** **34**
   - **E. Fformat y cyfweliadau a dalen sgorio** **45**
   - **F. Sylwadau a sgoriau'r cyfweliadau** **47**
     - ***F. i Gweithwyr Cymdeithasol***
     - ***F. ii Rheolwyr Tîm***
     - ***F. iii Mentor a Chadeirydd Cynadleddau sydd wedi Ymddeol***
     - ***F. iv Cadeiryddion Cynadleddau***
     - ***F. v Rheolwyr y Gwasanaeth a Rheolwr y Prosiect***
     - ***F. vi Pennaeth y Gwasanaeth (Heb roi sgôr ond wedi rhannu argraffiadau)***
     - ***F. vii Asiantaethau Eraill***
   - **G. Set Ddata Perfformiad a Gwerthusiad o'r Prosiect** **67**

# 1 Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r sail dros y Crynodeb Gweithredol yma a'r Argymhellion i'w canfod yn yr atodiadau.

Gofynnwyd i mi bwyso a mesur ydy gwaith amddiffyn plant yng Ngwynedd yn fwy effeithiol ar ôl mabwysiadu model Amddiffyn Plant yn Effeithiol?

Mae ateb pendant i hynny, sef **<u>'Ydy'</u>**.

Yn y gwerthusiad interim, nodais faint yr oeddwn wedi fy synnu gan symlrwydd y Model a pha mor ymarferol ydoedd, yn ogystal â'r effaith yr oedd wedi'i gael ar ymarfer. Holais 'pam nad oes neb wedi gwneud hyn o'r blaen?' Mae'r gwaith meddwl sydd wrth wraidd y model yn cael mwy a mwy o argraff arnaf, yn ogystal â'r dycnwch a'r dyfalbarhad i fwrw ymlaen i'w roi ar waith, er gwaethaf Covid.

Roedd angen gwneud newidiadau mawr i ymarfer er mwyn cyflwyno Amddiffyn Plant yn Effeithiol yng Ngwynedd. Roedd uwch reolwyr yn barod eu cefnogaeth, ac mae wedi gweithio ac yn parhau i ffynnu. Rwy'n ffyddiog ei fod wedi bod yn hwb ar gyfer datblygu sgiliau ac ymarfer ac y gallai'r prif elfennau fod yn fuddiol i lawer o awdurdodau lleol.

Mae'r model yn cynnwys 4 elfen ac mae'n cyfeirio at Fentora Ymarfer a defnyddio ymarfer adlewyrchol i wreiddio ac atgyfnerthu gwelliannau mewn ymarfer.

O'r pedair elfen, 'Newid' a 'Mesur' ydy'r elfennau newydd sy'n cael eu gwreiddio mewn ymarfer gwaith cymdeithasol.

Mae'r rhain yn syniadau syml ond pwysig nad ydy gwaith cymdeithasol, hyd yn hyn, wedi llwyddo i'w troi yn declynnau ac yn ffyrdd ymarferol o weithio. Y rhain sy'n cyfrannu fwyaf at fodel Amddiffyn Plant yn Effeithiol a'i effaith ar amddiffyn plant.


Mae Prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn cael ei arwain gan hyfforddwr a chymhellwr profiadol sydd wedi meddwl yn ofalus am sut mae pobl yn dysgu ac yn addasu dros amser. Mae Mentora Ymarfer yn allweddol wrth droi syniadau neu fwriadau yn newidiadau i ymarfer rheng flaen. Mae'r Mentor Ymarfer yn rhoi pwyslais ar adlewyrchu, ac mae'n gwneud synnwyr ein bod yn gweld cymaint o bwyslais yn cael ei roi ar y sgiliau hyn.

## Argymhellion

- Atgyfnerthu'r gwaith o gyflwyno elfennau Newid a Mesur fel y rhai sy'n gwneud y mwyaf o wahaniaeth.
- Dal ati i adolygu 'Beth sydd Angen Newid' a 'Mesur' er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn rhoi ffocws unigol ar deuluoedd a'u sefyllfaoedd.
- Mae'r prosiect wedi llwyddo i helpu llawer o deuluoedd i newid eu ffyrdd ac i ofalu am eu plant. Dylid dal ati i ddatblygu ac adolygu amrywiaeth o ffyrdd gwahanol o hybu a galluogi newid.
- Atgyfnerthu a sefydlu mentora er mwyn cynorthwyo ac atgyfnerthu rôl a chyfrifoldebau'r rheolwr tîm. Mae mentora wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu sgiliau gweithwyr cymdeithasol o safbwynt adlewyrchu, cyfathrebu a chynnwys teuluoedd.
- Datblygu cyngor i awdurdodau lleol eraill ar ddefnyddio elfennau unigol Amddiffyn Plant yn Effeithiol i gyd-fynd â'r system maen nhw'n ei defnyddio. Y prif elfennau ydy 'Newid' a 'Mesur'. Gallai'r rhain gyd-fynd â phrosesau sydd ar waith yn barod yn ddigon hawdd.
- Defnyddio dadansoddiad 'Rheswm dros eich Penderfyniad' Risg 2 mewn cynadleddau i grynhoi casgliadau.
- Defnyddio'r grid yn Risg 2 mewn cynadleddau a grwpiau craidd er mwyn cyfathrebu'n well.
- Defnyddio teclynnau Proffil Gofal wedi'i Raddio a Cyflwr y Cartref i helpu i feddwl am y 'Camau' a'r 'Newid'.
- Dal ati i hyrwyddo'r dulliau a'r canlyniadau – yng Ngogledd Cymru i ddechrau arni ac yna i gynulleidfa ehangach.

Rwy'n atgyfnerthu'r neges yn fy adroddiad interim. *'Fodd bynnag, mae'n deyrnged i'r gwaith datrys problemau sydd wedi cael ei wneud i ddod o hyd i ateb, a'r dycnwch i gyflawni'.*

## 2. Awdur yr adroddiad



Rwy'n weithiwr cymdeithasol cofrestredig, ar ôl cymhwyso yn 1971. Ym maes plant rydw i wedi gweithio'n bennaf, a hynny mewn swyddi gwaith cymdeithasol, rheoli a hyfforddi mewn awdurdodau lleol.

Rwyf hefyd wedi darlithio ar gwrs gwaith cymdeithasol proffesiynol ac yn un o gyd-awduron y Canllaw Gofal Cymunedol i Ddeddf Plant 1989.

Ers 1992, rwyf wedi bod yn hyfforddwr llawrydd ac yn datblygu gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr. Rwy'n un o gyd-awduron Model Risg Gwynedd ac mae gen i ddiddordeb arbennig mewn ffyrdd ymarferol o roi datblygiadau amddiffyn plant ar waith mewn awdurdodau lleol.

Rwyf wedi cyflwyno'r Model Risg i amryw o Adrannau Gwasanaeth Plant mewn awdurdodau lleol ac rwy'n gyfarwydd iawn â llawer o systemau amddiffyn plant.

Rwy'n gyfarwydd â chefndir prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol ond nid wyf wedi bod yn gysylltiedig â'r gwaith o'i ddatblygu na'i roi ar waith. Fodd bynnag, fe wnes i gyflawni rhan o'r gwerthusiad interim, gan gymharu a chyferbynnu adroddiadau cynadleddau amddiffyn o'r cyfnod cyn i'r model gael ei gyflwyno ac ar ôl hynny.

## 3. Prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol *(addaswyd o'r briff)*

Nod 'Amddiffyn Plant yn Effeithiol', yn syml iawn, ydy gwneud yn siŵr bod ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol.

Gellir dweud bod gwaith amddiffyn plant yn effeithiol pan fydd ymyriad yn llwyddo i gael gwared ar y tebygolrwydd o niwed arwyddocaol ac yn gwneud yn siŵr bod y gofal y mae plentyn yn ei gael 'yn ddigon da'. Er mwyn i hyn ddigwydd mae'n rhaid cael newid, ac fel arfer mae hyn yn golygu newid yn ymddygiad y rhieni/gofalwyr neu yn amgylchiadau'r plentyn.

Mae 'Amddiffyn Plant yn Effeithiol' yn newid y pwyslais amddiffyn plant i roi 'ffocws ar newid'. Dyma'r newid sy'n angenrheidiol er mwyn lleihau'r risg o niwed arwyddocaol.

Mae'n cyflawni'r hyn sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2014 yng Nghymru, ac yn cynnig methodoleg ar gyfer mesur canlyniadau. Mae sgìl arbennig wrth wraidd hyn, sef cyfathrebu cydweithredol gyda theuluoedd, sy'n anelu at ddatblygu perthynas waith dda a chadarnhaol a chydweithio â nhw. Mae hyn yn hollol groes i'r gwrthwynebiad a'r gwrthdaro a achosir yn aml gan ymarfer amddiffyn plant traddodiadol, lle rhoddir ffocws ar fethiannau a diffygion mewn gofal.

Felly:

- Sgyrsiau sy'n gweithio, sydd ddim yn creu gwrthwynebiad i newid ac sy'n cadw plant yn ddiogel, drwy gael gwell sgiliau 'Cyfweld Ysgogiadol' neu 'Gyfathrebu Cydweithredol' i feithrin perthynas â theuluoedd ac osgoi gwrthwynebiad i newid.
- Penderfyniadau da a chyson am drothwyon niwed arwyddocaol drwy ddefnyddio'r 'Model Risg'.
- Diffinio'r newid sydd ei angen a'r 'datganiad newid' ar gyfer y 3 phrif newid sydd ei angen i leihau niwed arwyddocaol, a
- Sicrhau cynnydd a mesur llwyddiannau drwy ddefnyddio 'Camau Tuag at Newid' i fonitro cynnydd tuag at ganlyniadau mwy diogel.

## 4. Y Cyd-destun: Covid a'r Argyfwng Staffio *(addaswyd o'r briff)*

Ddiwedd 2020, gwelwyd prinder staffio aruthrol. Ar un adeg, roedd sawl aelod o staff mewn un tîm ar gyfnod mamolaeth ar yr un pryd, a staff yn gadael eu swyddi. Roedd hyn yn gysylltiedig â COVID i ryw raddau, ond roedd ffactorau eraill yn cyfrannu hefyd, gan gynnwys gwell taliadau cydnabyddiaeth a buddion staff mewn timau ac awdurdodau eraill. Gwnaed addasiadau tymor byr i ail-leoli staff; a hynny weithiau er nad oedden nhw eu hunain yn dymuno symud.

Parhau wnaeth yr argyfwng, yn yr un modd ag effeithiau cymryd y camau wrth gefn.

Mae hyn, ar ben COVID, wedi bod yn nodweddiadol o'r cyfnod rhwng diwedd 2020 a dechrau 2022.

Mae wedi bod yn gefndir i waith y prosiect wrth geisio rhoi Amddiffyn Plant yn Effeithiol ar waith yn ymarferol.

## 5. Cwmpas y gwerthusiad *(addaswyd o’r briff)*

Math o ddadansoddiad ydy’r gwerthusiad, a'r cwestiwn y mae’r dadansoddiad yn ceisio’i ateb ydy:

***‘Ydy gwaith amddiffyn plant yng Ngwynedd yn fwy effeithiol ar ôl mabwysiadu model Amddiffyn Plant yn Effeithiol?’***

Llunio **adroddiad byr** yn seiliedig ar gyfres o gyfweliadau byr gydag ymarferwyr a phartneriaid, er mwyn ysgrifennu dadansoddiad o’r canlynol:

- Llwyddiant cyffredinol y prosiect wrth gyflawni ei nod
- Ydy ymarferwyr yn defnyddio rhywfaint neu’r cyfan o ddulliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu gwaith bob dydd? (h.y. pa mor dda ydy’r cysylltiad rhwng beth sy'n digwydd ar y rheng flaen a’r hyn y mae’r prosiect yn ceisio’i gyflawni?)
- Y cryfderau a nodwyd (beth sy’n mynd yn dda?)
- Yr anawsterau (beth ydy’r heriau?)
- Anogaeth (argymhellion) ar gyfer
    - cyfeiriad y prosiect drwyddo draw
    - meysydd penodol sydd angen sylw
- Barn arbenigwyr
    - Safbwyntiau arbenigwyr ar yr hyn y mae prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi’i gyflawni hyd yn hyn
    - Cyngor arbenigol i lywio gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol.

## 6. Methodoleg

Cynhaliwyd cyfweliadau gyda gweithwyr cymdeithasol; rheolwyr tîm; cynrychiolwyr o asiantaethau eraill; cadeiryddion cynadleddau; rheolwyr gwasanaethau; rheolwr y prosiect a phennaeth y gwasanaeth.

Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn ar-lein, gyda phob un yn para tua awr a hanner.

Defnyddiwyd fformat safonol ar gyfer y cyfweliadau. Yn ogystal â'r sylwadau, gofynnwyd i'r cyfranwyr ddefnyddio dalen sgorio i sgorio cynnydd. Roedd hyn yn seiliedig ar yr un a ddefnyddiwyd yn y prosiect gyda theuluoedd i fesur targedau a newidiadau. Roedd y siart sgorio yn cynnwys rhifau o 1 i 10. Roedd y rhain, yn gyffredinol, yn golygu:

| | |
|---|---|
| 1 | gwael iawn |
| 2 | ddim yn ddigon da |
| 3 -7 | pethau'n gwella |
| 8 | digon o gynnydd wedi'i wneud i weithio'n dda a pharhau i wneud hynny |
| 9 | gwelliannau mawr, gweithio'n dda iawn ac yn debygol iawn o barhau |
| 10 | rhagorol, gyda newidiadau wedi'u gwneud ac yn cael eu cynnal a'u gwreiddio |

Yn amlwg, nid oedd y sgoriau'n wyddonol, ond roeddent yn rhoi cyfle i weithwyr roi sgôr i'w safbwyntiau.
Roedd dau aelod o staff o asiantaethau eraill wedi cytuno i gael eu cyfweld.

Mae dalenni sgorio'r grwpiau a'r sylwadau yn Atodiad C.

Mae sgoriau'r cyfweliadau wedi cael eu cyfuno a chyfeirir atynt yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

## 7. Cyfweliadau

Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng 10fed Ionawr a 3ydd Mai 2022.

**Niferoedd a swyddogaethau**

- **Cadeiryddion Cynadleddau Amddiffyn Plant** **3 cyfweliad**
- **Rheolwyr Tîm** **4 cyfweliad**
- **Mentor/Cadeirydd Cynadleddau sydd wedi Ymddeol** **1 cyfweliad**
- **Grwpiau Gweithwyr Cymdeithasol** **3 + 4** **7 cyfweliad**
- **Rheolwyr Gwasanaeth** **2 gyfweliad**
- **Rheolwr Prosiect** **1 cyfweliad**
- **Pennaeth y Gwasanaeth** **1 cyfweliad**
- **Asiantaethau eraill**
    - **Yr Heddlu** **1 cyfweliad**
    - **Camddefnyddio sylweddau** **1 cyfweliad**

**Cyfanswm y cyfweliadau** **21**

## 8. Casgliadau

Roedd un thema yn amlwg iawn wrth drin a thrafod Amddiffyn Plant yn Effeithiol, ac eglurder oedd hwnnw. Eglurder i deuluoedd ynghylch beth oedd angen newid, ac eglurder mewn Cynadleddau a Grwpiau Craidd. Mae'n amlwg bod gweithwyr cymdeithasol yn rhoi pwyslais ar newid, ac yn paratoi'r datganiad newid yn yr Adroddiadau i Gynhadledd Gychwynnol. Mae hyn yn rhoi sylfaen i bethau o'r dechrau. Gan fod hyn yn cael ei integreiddio ym mhroses y gynhadledd, mae'n digwydd y rhan fwyaf o'r amser, os nad drwy'r amser hyd yn oed. Ac mae'r gweithwyr yn gwneud y datganiadau ynglŷn â pham bod gofal 'ddim yn ddigon da', ac yn rhoi sgôr o 2; ac yn rhagweld sut byddai pethau pe bai gofal 'yn ddigon da' yn y dyfodol. Mae hyn yn rhoi'r elfen Mesur yn ei lle a'r defnydd o Camau Tuag at Newid.

Rydym yn gwybod bod angen amser a dyfalbarhad i newid ymarfer. Mae'r prosiect yn gosod safon ar gyfer gwneud hyn, ac mae'n cydnabod nad ydy ymarfer yn berffaith o bell ffordd. Ond mae hyd yn oed cam bach tuag at y safon rydyn ni'n anelu tuag ati; drwy well ffocws ar newid a meddwl mwy am gamau datblygiadol; i bob golwg yn gwneud byd o wahaniaeth i eglurder yr ymarfer a pha mor effeithiol ydy o. Mae ymarferwyr wedi egluro eu bod nhw'n siarad mwy â theuluoedd am newid nag erioed o'r blaen. Dyma'r 'sgwrs newid' rydyn ni'n clywed amdano mewn 'cyfweliadau ysgogiadol'.

Mae llawer o debygrwydd rhwng ceisio gwella neu newid ymarfer drwy Amddiffyn Plant yn Effeithiol ar lefel sefydliadol, a'r anawsterau wrth newid neu wella gofal ym maes amddiffyn plant ar lefel teulu. Mae geiriau fel 'blêr', 'cyfaddawdu', 'ffocws', 'cadw pethau'n syml' a 'dal ati' yn dod i'r meddwl – ac ymddengys bod hyn yn wir yn y prosiect hefyd.

Y ddau air oedd yn sefyll allan wrth gynnal y Gwerthusiad oedd **ffocws** a **dyfalbarhad.**

Mae'r ffocws clir ar y pethau bychain – sesiynau mentora i bawb, hyfforddiant ffurfiol, yna sesiynau atgoffa wedi'u hatgyfnerthu gan fentora ymarfer, anogaeth barhaus, newid prosesau pwysig i gefnogi'r model hwn a gwneud pethau mor hawdd â phosib. Ac o ran dyfalbarhad – dal ati, er gwaethaf COVID, er gwaetha'r ffaith bod y gwasanaeth dan gymaint o bwysau ei bod hi'n anodd iddo ddelio â dim byd arall.

Wrth feddwl am fy mhrofiad i o gynorthwyo awdurdodau lleol i roi newidiadau ar waith, beth sydd ei angen ydy:

- Mae angen model clir, sy'n seiliedig ar ymarfer ac sy'n gwneud gwelliannau. (Yn yr achos hwn, gwelliannau anferthol).
- Mae angen i'r newidiadau sy'n ofynnol fod yn syml ac yn ddealladwy i'r rheini fydd yn eu rhoi ar waith.
- Mae angen i staff gael eu cefnogi a'u clywed, a rhaid gwneud addasiadau.
- Mae angen dyfalbarhad i ddal ati.
- Mae angen i bawb dderbyn y bydd hyn yn cymryd amser.

Mae tystiolaeth glir bod pob un o’r rhain yn eu lle yng Ngwynedd a’u bod yn gweithio'n dda.

Math o ddadansoddiad ydy’r gwerthusiad hwn, a'r cwestiwn y mae’r dadansoddiad yn ceisio’i ateb ydy:

> ***‘Ydy gwaith amddiffyn plant yng Ngwynedd yn fwy effeithiol ar ôl mabwysiadu model Amddiffyn Plant yn Effeithiol?’***
>
> *Mae fy sylwadau i ym mhob un o’r adrannau blaenorol yn bendant yn ateb y cwestiwn hwn mewn ffordd gadarnhaol.*
>
> *Mae Gwynedd yn adeiladu ar beth sydd eisoes yn sylfaen ymarfer dda, lle mae risg wedi cael ei dreialu, ei fabwysiadu a’i integreiddio'n llwyddiannus mewn ymarfer ers llawer o flynyddoedd.*
>
> *Mae pedair elfen allweddol Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu lle, wedi cael eu gwreiddio, ac yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus.*
>
> ***Felly, ‘Ydy’, mae gwaith amddiffyn plant yng Ngwynedd yn bendant yn fwy effeithiol o ganlyniad i ddefnyddio model Amddiffyn Plant yn Effeithiol’***

*Rwy’n atgyfnerthu’r neges yn fy adroddiad interim.  ‘Fodd bynnag, mae’n deyrnged i’r gwaith datrys problemau sydd wedi cael ei wneud i ddod o hyd i ateb, a’r dycnwch i gyflawni’.*

# Atodiadau

## Atodiad A – Dadansoddiad o setiau data Gwynedd

**Data Gwynedd**

Mae'r set ddata gyntaf yn dangos, rhwng 2017 a 2022, fod 100% o blant wedi cael eu sgrinio yn ystod goruchwyliaeth yn erbyn y posibilrwydd bod niwed arwyddocaol wedi digwydd neu ei fod yn debygol o ddigwydd. Gelwir hyn yn Risg 1 neu'n Sgrinio Risg yn y Model Risg. Fe'i cofnodir gan Weithwyr Cymdeithasol a'r Rheolwr Tîm. Mae hyn yn dangos defnydd cyson o Risg 1; conglfaen y Model Risg.

Mae'r ail set ddata yn nodi cyfran yr asesiadau risg (a gyflwynwyd i Gynadleddau Achos rhwng 2017 a 2022) yr oedd y cadeiryddion o'r farn eu bod yn dangos ansawdd yn y broses wneud penderfyniadau. Roedd y rhain yn amrywio o 96% yn 2017/18, 3 blynedd ar 99% gyda dim ond 2019/20 yn disgyn i 97%. Roedd hyn er gwaethaf epidemig Covid a'i oblygiadau. Dyma'r defnydd o Asesiad Risg Cam 2 wrth lunio Adroddiadau i Gynhadledd. Fe'i cofnodir gan Gadeiryddion Cynadleddau. Mae hyn yn dangos bod Risg 2 o'r Model Risg yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol wrth wneud penderfyniadau cyn ac yn ystod Cynadleddau Achos.

Datblygwyd y drydedd set ddata i helpu i gadw golwg ar sut mae Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn cael ei roi ar waith a mesur ei effaith ar ymarfer. Cofnodir hyn gan Gadeiryddion Cynadleddau. Dyma'r prif bethau sy'n codi o'r data:

| ***Cynhadledd Gychwynnol*** | **20/21 %** | **21/22 %** |
|---|---|---|
| *Roedd y gynhadledd yn nodi'r newid/newidiadau y mae angen i'r plentyn/teulu eu gwneud* | 100 | 94 |
| *Roedd y gynhadledd yn nodi datganiadau 2 ac 8 ar gyfer pob newid* | 86 | 75 |
| *Roedd y gynhadledd yn gweithio mewn ffordd gydweithredol* | 78 | 67 |
| *Mae'r plentyn/teulu yn deall y newid/newidiadau sydd angen digwydd* | 75 | 69 |
| *Mae'r plentyn/teulu yn deall eu rhan yn y gwaith hwn* | 64 | 62 |
| ***Cynhadledd Adolygol*** | | |
| *Roedd y gynhadledd yn nodi'r newid/newidiadau y mae angen i'r plentyn/teulu eu gwneud* | 86 | 90 |
| *Mae'r risg o niwed arwyddocaol wedi lleihau ers y gynhadledd ddiwethaf* | 68 | 66 |
| *Roedd y gynhadledd yn nodi datganiadau 2 ac 8 ar gyfer pob newid* | 75 | 71 |
| *Roedd y gynhadledd yn gweithio mewn ffordd gydweithredol* | 84 | 87 |
| *Mae'r plentyn/teulu yn deall y newid/newidiadau sydd angen digwydd* | 81 | 86 |
| *Mae'r plentyn/teulu yn deall eu rhan yn y gwaith hwn* | 77 | 75 |
| *Mae'r plentyn/teulu yn gweithio ar y newid fel rhan o'r Grŵp Craidd* | 76 | 85 |
| *Mae'r plentyn/teulu wedi'u cynnwys yn llawn ac yn effeithiol yn y Grŵp Craidd* | 76 | 85 |

***Gwirio Cynnydd yn y Gynhadledd Adolygol***

| | | |
|---|---|---|
| *Ydy'r Canlyniad/'Datganiad newid [1]' wedi cael ei gofnodi?* | 89 | 98 |
| *Mae'r sgôr wedi gwella ers y gynhadledd flaenorol – Arfon* | 66 | 56 |
| *Mae'r sgôr wedi gwella ers y gynhadledd flaenorol – Dwyfor* | 70 | 82 |
| *Mae'r sgôr wedi gwella ers y gynhadledd flaenorol – Meirionnydd* | 55 | 67 |

**Casglu data a dadansoddi – Arsylwadau a Chasgliadau**

Mae'n amlwg o'r data uchod (gweler Atodiad D) fod cynnydd yn cael ei fonitro'n ofalus o fewn yr Uned Diogelu. Yn y cynadleddau cychwynnol, mae pwyslais clir a chyson yn cael ei roi ar holl brosesau Amddiffyn Plant yn Effeithiol sy'n cyd-fynd â gweithdrefnau Cymru.

Yn y Cynadleddau Adolygol, mae'r pwyslais yn cael ei ymestyn ac mae data cymharol ychwanegol o wahanol ardaloedd Gwynedd hefyd yn cael ei gasglu a'i adolygu.

Maent yn dangos bod llawer o newidiadau wedi digwydd mewn prosesau ac ymarfer, a bod y newidiadau hynny bellach wedi'u gwreiddio'n llwyr yn y system amddiffyn plant bresennol.

Mae'r ffigurau'n foddhaol iawn, ond mae'n debyg eu bod yn dal yn is na'r hyn fyddai wedi cael ei gyflawni pe na bai epidemig Covid wedi tarfu ar feysydd ymarfer dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn 2021/22, mae'r 'datganiad newid', sef y prif ddangosydd ar gyfer yr hyn sydd ei angen i gadw'r plentyn yn ddiogel, yn cael ei nodi mewn mwy na 90% o Gynadleddau Achos. O ran nodweddion pwysig eraill Amddiffyn Plant yn Effeithiol, mae nodweddion fel cydweithio yn cael eu defnyddio'n gyson. Mae rhai o'r tueddiadau sydd yn y data yn dangos dirywiad yn 2021/22 o'r flwyddyn cyn hynny; efallai fod hyn yn adlewyrchu'r newidiadau staffio a phwysau gwaith Covid. Mae hyn yn dda iawn, ac mae'n dangos ffocws clir a chyson ar yr elfen allweddol hon o Amddiffyn Plant yn Effeithiol. Nid wyf yn bwriadu rhoi sylw pellach i'r set ddata hon gan ei bod yn dangos ffordd gymwys a phroffesiynol iawn o fesur a chynnal cynnydd mewn perthynas â'r prosiect.

O ran y cwestiwn allweddol: *'Ydy gwaith amddiffyn plant yng Ngwynedd yn fwy effeithiol ar ôl mabwysiadu model Amddiffyn Plant yn Effeithiol?'*

*Ar sail y data hwn, gellir cadarnhau mai'r ateb ydy* ***'Ydy',*** *mae'n fwy effeithiol.*

**Atodiad B – Dadansoddiad o'r Cyfweliadau. Mae hyn yn cynnwys sgoriau wedi'u cyfuno a sylwadau. Roedd ambell sgôr a roddwyd yn y cyfweliad yn rhychwantu 2 ddewis, e.e. 7 i 8. Mae'r ddwy sgôr wedi'i chynnwys.**

Math o ddadansoddiad ydy'r gwerthusiad hwn, a'r cwestiwn y mae'r dadansoddiad yn ceisio'i ateb ydy:

***'Ydy gwaith amddiffyn plant yng Ngwynedd yn fwy effeithiol ar ôl mabwysiadu model Amddiffyn Plant yn Effeithiol?'***

**Sylwadau:**

**Ydy.** Yn fy marn broffesiynol i, mae gwaith amddiffyn plant yn fwy effeithiol yng Ngwynedd ers i fodel Amddiffyn Plant yn Effeithiol gael ei ddefnyddio. Mae data'r cyfweliadau a'm hasesiad proffesiynol i yn cadarnhau hyn.

Mae'r sail resymegol dros y farn gadarnhaol hon yn cynnwys cyfeiriadau at y sgoriau canolrifol ac amrywiaeth eang o sylwadau.

Roedd y cyfranwyr i gyd yn agored ac yn barod i siarad am y cryfderau a'r anawsterau oedd yn gysylltiedig â mabwysiadu system Amddiffyn Plant yn Effeithiol.

Roedd y sgoriau'n adlewyrchu eu safbwyntiau a'u profiad o ddefnyddio'r system. Er y nodwyd rhai anawsterau, i weithwyr cymdeithasol a chadeiryddion y cynadleddau, roeddent yn ymwneud yn bennaf â gweithio'n rhithiol gyda theuluoedd a'r modd yr oeddent yn cael eu cynnwys mewn cynadleddau amddiffyn plant. I reolwyr, roeddent yn ymwneud yn bennaf â rheoli materion yn ymwneud â staff a chynnal gwasanaethau dros y ddwy flynedd ddiwethaf – a chyflwyno, mabwysiadu a chynnal Amddiffyn Plant yn Effeithiol ar yr un pryd.

Rhoddodd uwch reolwyr drosolwg o'r gwaith cyflwyno a'r newidiadau mewn ymarfer.
Mae trosolwg Pennaeth y Gwasanaeth wedi'i gynnwys ar ddiwedd yr adran hon a dydy o ddim wedi cael ei sgorio.

I staff a oedd wedi gweithio yn y maes gwaith cymdeithasol ers tro, ac wedi defnyddio'r system flaenorol (y mwyafrif) nid oedd unrhyw awgrym o gwbl eu bod yn dymuno mynd yn ôl at y model asesu, y cynadleddau amddiffyn plant a'r ymyriadau blaenorol.

Roedd sylwadau a wnaed am y system flaenorol yn cyfeirio at amrywiaeth o anawsterau a oedd yn ymwneud â pharatoi adroddiadau i gynhadledd, hyd y cynadleddau a'r rhestr o dasgau oedd yn deillio ohonynt.

Yn y gorffennol, byddai gweithio gyda theuluoedd gyda phlant oedd yn rhan o'r system amddiffyn plant yn golygu rhestr hirfaith o dasgau pan fyddai'r cynadleddau'n dod i ben. Roedd hynny'n gallu bod yn llethol i deuluoedd ac i ymarferwyr. Nodwyd bod llawer o'r tasgau hyn yn anodd eu mesur o ran effaith ar y plentyn neu'r plant.

Er enghraifft, rhieni'n gorfod dilyn rhaglen 'Dewis Newid' neu 'Y Blynyddoedd Rhyfeddol', neu fynd i apwyntiadau gyda'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau. Yn amlach na pheidio, nid oedd gan y rhain ganlyniadau clir o safbwynt effaith y digwyddiadau ar ddiogelu'r plentyn, neu wneud y cysylltiad rhwng ymddygiad y rhiant a diwallu anghenion diogelwch y plentyn.

Roedd gan bawb ddealltwriaeth glir o'r hyn yr oedd y model newydd yn ceisio'i gyflawni, ac roedd y sgoriau a'r sylwadau'n adlewyrchu'r brwdfrydedd cyffredinol am ei gyflwyno.

Roedd cyd-destun gweithio'n unigol gyda dim ond ychydig gyfleoedd i roi a derbyn cymorth wedi effeithio ar bob aelod o staff ac yn aml yn flinedig ac yn straen arnynt.

**Sgoriau cyfun. Roedd ambell sgôr a roddwyd yn y cyfweliad yn rhychwantu 2 ddewis, e.e. 7 i 8. Mae'r ddwy sgôr wedi'i chynnwys.**

**<u>Ydy staff yn defnyddio 'Sgyrsiau Cydweithredol' neu ddulliau tebyg yn eu hymarfer?</u>**

--- 1 2-- 3 4 5 x 1 6 x 7 7 x 9 8 x 6 9 10

Y sgôr ganolrifol ydy **7.0**

**Arsylwadau**

Mae'r mwyafrif wedi dilyn cyrsiau hyfforddi Sgyrsiau Cydweithredol, ac roedd y sgoriau'n dangos eu bod yn deall yr egwyddorion a'u bod yn eu defnyddio mewn ymarfer. Yn ôl cadeiryddion cynadleddau a rheolwyr tîm, gallent weld enghreifftiau o sgyrsiau cydweithredol mewn adroddiadau a chynadleddau.
Roedd y sgôr ganolrifol o 7 yn foddhaol, ond roedd y sylwadau'n cynnwys yr angen am ragor o hyfforddiant a mentora i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd.
Yn fy marn i, roedd digon o dystiolaeth bod sgyrsiau cydweithredol yn gwneud cyfraniad buddiol i'r prosiect.

**Sylwadau'r Staff (sampl)**

*"Mae sgyrsiau'n well a grym yn cael ei rannu.*
*Mae dull o weithio sy'n rhoi pwyslais ar gryfderau yn briodol iawn ac yn gallu gweithio'n dda.*
*Mae'n mynd yn dda ond mae'n fwy anodd magu hyder gyda theuluoedd tymor hir.*

*Pan mae'n cael ei ddefnyddio'n briodol mae'n gweithio'n dda gyda phobl ifanc sy'n rhieni neu'n ofalwyr.*
*Mae angen ei ddefnyddio mewn grwpiau craidd, ond mae hyn yn cymryd amser.*
*Mae'n derbyn teulu am bwy ydyn nhw ac yn rhoi'r hyder iddyn nhw agor allan.*
*Mae angen dyfalbarhad gyda'r teulu.*
*Mae llawer o sgiliau perthynas yn amlwg, hyd yn oed mewn amgylchiadau anodd.*
*Mae rhieni'n dweud hyn mewn cynadleddau ac maen nhw'n teimlo'u bod nhw'n cael eu parchu.*
*Roedd y ffordd yr oedd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn dda.*
*Profiad da fel gweithiwr cymdeithasol ac uwch weithiwr cymdeithasol. Ymarfer da mewn rhai grwpiau craidd e.e. asesiad seicolegol a'r Nyrs Seiciatrig Gymunedol Iechyd Meddwl yn cymryd rhan mewn trafodaethau agored a gonest.*
*Beth sy'n gorfod digwydd gyda theuluoedd amddiffyn plant ond ddim gyda Gofal a Chymorth?*
*Mae angen ystyried lefel y cyswllt. Mae eglurder o safbwynt canlyniadau wedi gwella ++*
*Dylid ystyried cyflwyno Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn y broses PLO".*

**Ydy staff yn gwneud asesiadau risg da?**

--- 1 2-- 3 4 5 6 x 2 7 x 11 8 x 7 9 x 1 10

Y sgôr ganolrifol ydy **7.3**

**Arsylwadau**

Mae'r Model Risg wedi cael ei sefydlu yng Ngwynedd ers nifer o flynyddoedd ac mae'n amlwg ei fod yn cael ei ddefnyddio ym mhob cynhadledd i sicrhau bod y llinell sylfaen ar gyfer niwed arwyddocaol wedi cael ei chyrraedd a bod hynny'n dal i ddigwydd. Rwy'n cyfeirio at Egwyddorion Risg Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. Dylai penderfyniadau sy'n ymwneud â risg gael eu gwneud yn ôl ansawdd y penderfyniadau, nid yn ôl y canlyniad ei hun, a dylent fod yn gyson. Drwy ddefnyddio'r Model Risg, mae Gwynedd wedi llwyddo i wneud hyn.

Yn fy marn i, wrth sgorio, nid oedd y cyfranwyr yn ystyried pa mor gyfarwydd oeddent ag asesu risg. Mae cynnwys y cyfweliadau a'r data yn dangos yn glir ei fod wedi'i wreiddio yng Ngwynedd ac yn cael ei ddefnyddio.

O ystyried hyn, yn fy marn i, rwy'n meddwl y byddai sgôr o 8 neu uwch yn fwy cywir.

Roedd tystiolaeth glir fod y maes Asesu Risg a sefydlu trothwy wedi'u gwreiddio a bod yr elfen hon yn gweithio'n effeithiol.

Mae'n anochel bod gostyngiad graddol yn y defnydd o unrhyw system y mae staff yn ei defnyddio ac yn dod yn gyfarwydd â hi. Mae systemau yn eu lle i fynd i'r afael â hyn.
Byddai modd defnyddio rhai elfennau o'r Asesiadau Risg yn fwy effeithiol, ac rwyf wedi nodi'r rhain yn y casgliadau a'r argymhellion.

**Sylwadau'r Staff (sampl)**

*"Mae gwneud hyn yn syth ar ôl cymhwyso yn ddigon i godi ofn ar rywun. Mae defnyddio canllawiau clir i ddangos tystiolaeth o risg yn eich arwain chi.*
*Roedd siarad gyda'n gilydd – rhywbeth roedden ni'n ei wneud mewn grŵp wythnosol – pan oedden ni i gyd yn dysgu yn ddefnyddiol.*
*Roedd defnyddio Risg 2 fel trothwy yn rhoi ffocws ar yr adroddiad i gynhadledd. Mae sgrinio Risg 1 yn cael ei ddefnyddio hefyd.*
*Roedd yn fuddiol egluro pam mae person ifanc yn wynebu risg ddifrifol a beth sydd angen ei wneud i leihau risg.*
*Mae datblygu teclyn ecsbloetio gyda Dafydd Paul yn ddefnyddiol.*
*Gyda staff profiadol, mae'n cael ei integreiddio. Mae'n gyflym ac yn helpu i roi ffocws.*
*Byddai'r rhestr Wirio Niwed Arwyddocaol yn gallu cael ei defnyddio'n amlach.*
*Mae'n galluogi cynadleddau i ganolbwyntio ar newid drwy sefydlu trothwy yn fuan.*
*Mae Niwed Arwyddocaol yn ddefnyddiol iawn ac yn cael ei ddefnyddio'n gynnar mewn cynadleddau, gan roi cyfle i newidiadau angenrheidiol gael eu trafod. Mae'n help rhag crwydro oddi wrth y testun.*
*Roedd Dwyfor a Meirionnydd yn defnyddio hyn yn dda.*
*Mae angen cadw'r safon yn uchel. Mae tuedd anorfod i bethau ddirywio.*
*Mae angen strwythur a chywirdeb gan Reolwyr Tîm i hybu a sicrhau sylfaen dystiolaeth ar gyfer datganiadau risg. Byddai'n bosib gwneud gwell defnydd o grid Risg 2".*

**Ydy staff yn rhoi ffocws ar newid a mesur cynnydd?**

--- 1 2-- 3 4 5 x 1 6 x 7 7 x 9 8 x 4 9 x 1 10

Y sgôr ganolrifol ydy **6.9**

**Arsylwadau**

Mae data o'r cynadleddau'n dangos bod sgyrsiau am newid yn digwydd yn rheolaidd a bod camau tuag at newid yn rhan o bob cynhadledd fwy neu lai.

Cydnabyddir bod sgyrsiau am newid a chyfweld ysgogiadol yn digwydd, ond mae rhai cyfranwyr yn teimlo mai dyma'r elfennau anoddaf i'w cyflawni a'u profi. Mae ei ddefnyddio'n gyson mewn grwpiau craidd yn fwy anodd.

Pe bai'r sgôr ond yn gysylltiedig â defnydd o newid a chamau mewn cynadleddau, byddai'n uwch o lawer. Byddai'r sgôr yn 8 neu uwch mae'n siŵr.

Mae'r egwyddorion o adnabod nifer fach o feysydd allweddol lle mae angen Newid wedi cael eu sefydlu'n llwyr ac yn cael eu defnyddio. Mae'r arfer o fesur cynnydd drwy ddefnyddio nifer o Gamau hefyd wedi'i sefydlu ac yn rhywbeth sy'n cael ei ddefnyddio. Ni chwestiynwyd dilysrwydd hyn yn y cyfweliadau o gwbl.

Fel y dywedais yn fy adroddiad interim, mae’r cysyniad o Amddiffyn Plant yn canolbwyntio ar ‘Newid’ mor amlwg, mae’n anodd gweld pam nad ydy o wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen.
Yn fy marn i, mae’r elfen hon o’r prosiect yn ei lle ac wedi’i sefydlu.
Mae tystiolaeth glir bod yr elfen hon o Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn llwyddo ac wedi’i sefydlu.

**Sylwadau’r Staff (sampl)**

*“Roedd defnyddio hyn gyda phlant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth yn gweithio'n dda.*
*Roedd y camau tuag at newid yn gweithio.*
*Roedd yn teimlo fel bod mwy o sefydlogrwydd a hunan-barch.*
*Gallai ei ddefnyddio mewn grwpiau craidd fod yn broblem. Anodd ar-lein, ac yn well mae’n siŵr yn yr un ystafell.*
*Roedd dealltwriaeth a dulliau ysgolion ac ymwelwyr iechyd yn anghyson.*
*Roedd eglurder o ran newidiadau yn gadarnhaol ond roedd y gwaith papur yn gwneud pethau'n fwy anodd.*
*Os nad oes newid, mae hynny’n amlwg, ac mae’n hawdd gweithio gyda hynny.*
*Os oes 'na newid yn digwydd, mae’n rymusol i’r teuluoedd ac i’r gweithwyr.*
*Wedi cael ei ddefnyddio’n effeithiol gyda’r Tîm Trothwy gyda pherson ifanc sy'n ofalwr.*
*Mae’r manylion yn gallu bod yn broblem weithiau ond mae’r ffocws ar faterion 3 i 5 yn dda.*
*Gall fod yn anodd egluro i’r sector addysg sut mae’n cael ei ddefnyddio, yn enwedig mewn achosion o wahardd.*
*Mae Camau yn cael eu gwneud yn dda iawn mewn cynadleddau – er eu bod nhw ar-lein.*
*Mae eglurder ynglŷn â ‘beth sydd angen newid’ ymysg teuluoedd. Mae’n amlwg bod mwy o ffocws.*
*Roedd blinder mewn cynadleddau yn broblem, ond dydy hynny ddim yn digwydd cymaint rŵan.*
*Os ydy grwpiau craidd yn gweithio'n dda, mae adroddiadau'n cynnwys argymhellion sy'n dilysu’r prosiect.*
*Mae pobl yn deall newid, ond dydy o ddim bob amser yn cael ei ysgrifennu'n dda a gall fod yn or-gymhleth.*
*Mae’n bwysig iawn ei fod ar gael fel ychwanegiad at gymorth gan gydweithwyr a goruchwyliaeth.*
*Roedd y gallu i gael gafael ar Wendy (mentor) yn golygu y gallai pethau newid yn gyflym e.e. newid dogfennau ac addasu templedi.*
*Proses ydy camau tuag at newid. Nid mesur camau unigol ydy’r prif beth. Yn hytrach, mae'n ymwneud â chynllunio a siarad am newid, fod tystiolaeth o gynadleddau'n dangos ei fod yn digwydd. Mae symud o adnoddau gweledol i sgwrs newid, sy'n gysylltiedig â chyfweld ysgogiadol, yn dangos fod mwy o sgyrsiau sy'n rhoi pwyslais ar newid yn digwydd. Mae defnyddio camau i fesur cynnydd yn digwydd fel mater o drefn. Mae tystiolaeth o gynadleddau'n dangos bod hyn yn digwydd. Mae staff i fod i ystyried sut mae ysgwyddo perchnogaeth dros y camau a defnyddio geiriau’r teuluoedd. Mae siarad am newid yn rhan o hyn.*

**<u>Beth ydy barn staff am ymarfer adlewyrchol a mentora ymarfer ac ydy'r rhain yn rhoi sylw i’w hanghenion datblygiadol ac anghenion y prosiect?</u>**

--- 1 2-- 3 4 5 6 x 3 7 x 5 8 x 3 9 x 2 10 x 1

Y sgôr ganolrifol ydy **7.3**

**Arsylwadau**

Roedd brwdfrydedd cyffredinol ynghylch ymarfer adlewyrchol. Roedd yn rhywbeth amhrisiadwy ym marn gweithwyr oedd newydd gymhwyso, ac roedd yn atgyfnerthu’r hyn roeddent wedi’i ddysgu ac yn eu helpu i ddefnyddio eu sgiliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol ac elfennau eraill o ymarfer.

Roedd y ffaith bod y mentor cyntaf wedi symud i swydd arall yn dipyn o broblem, ond roedd cael mentor rhan-amser newydd yn help i lenwi’r bwlch. Mae angen mynd o'i chwmpas hi mewn ffordd ychydig bach yn wahanol i fentora gweithwyr profiadol, ond gellir trin a thrafod hynny gyda rheolwyr tîm.

Mae tystiolaeth bod y patrwm arloesol hwn wedi gwneud cyfraniad enfawr at lwyddiant y prosiect. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai hyn yn parhau, a phe bai’r ddarpariaeth yn cael ei hymestyn ryw ben.

**Sylwadau’r Staff (sampl)**

*“Roedd mentora gyda Sue Adams (mentor) yn amhrisiadwy. Fe wnaeth fy helpu i weld safbwynt y teulu, a’i barchu. Mae hi'n helpu gyda gwahanol ffyrdd gweledol o ymgysylltu â phobl ifanc. Roedd yn atgyfnerthu dysgu am Amddiffyn Plant yn Effeithiol.*
*Dwi'n gobeithio y bydd yn parhau. O'i gymharu ag awdurdodau eraill, mae’n helpu go iawn.*
*Mentora ar gyfer rheolwyr tîm yn rhywbeth i’w groesawu*
*Dydy o ddim yn tarfu ar rôl oruchwyliol y Rheolwr Tîm. Mae rôl pawb yn glir.*
*Mae morâl rheolwyr tîm yn isel ac mae’r rôl mentora'n gallu bod yn gymhleth, yn enwedig os ydy’r rheolwr yn brysur iawn. Dydy cydweithwyr yn mentora ei gilydd ddim mor fuddiol os nad oes gan y mentor brofiad o Amddiffyn Plant.*
*Mae’n gam mawr mynd o’r cwrs gwaith cymdeithasol i ymarfer, ac mae mentora’n helpu yn hynny o beth. Mae hyder yn gallu bod yn isel ac mae 'na lawer i’w ddysgu, sy'n fwy anodd os ydych chi'n gweithio o gartref.*
*Mewn rhai timau, mae ‘na broblem rhwng mentora a goruchwylio, ond dydy hynny ddim yn digwydd mewn timau eraill. Mae hyn yn gwella, gyda Rheolwyr Tîm yn dechrau gofyn am help i wneud cynnydd.*
*Fodd bynnag, mae mentora'n gweithio, mae wedi cael ei sefydlu, ac mae’n helpu gydag arbrofi, datblygu sgiliau ac ennill profiad.*
*Mae’n bwysig iawn ei fod ar gael fel ychwanegiad at gymorth gan gydweithwyr a goruchwyliaeth.*

*Trefnwyd hyn pan oedd Wendy (mentor) yn gweithio'n llawn amser. Roedd pawb yn cael sesiynau 1:1 neu sesiynau grŵp. Roedd angen 3 sesiwn.*
*Mae angen i gyfraniad y rheolwr tîm gael ei ddatblygu'n briodol.*
*Mae angen datblygu'r diwylliant mentora timau.*
*Mae mentora ymarfer yn gweithio ond mae angen atgyfnerthu a datblygu a gwneud cysylltiadau er mwyn rhoi gwybodaeth i Reolwyr Tîm a'u cynnwys.*
*Mae Ymarfer Adlewyrchol yn arloesol ac yn uchelgeisiol ac mae'n newid hanfodol yn y ffordd mae gweithwyr cymdeithasol yn ymgysylltu â theuluoedd.*
*Mae Siobahn MacClean (awdur) a Wendy yn datblygu ac yn cynhyrchu pob math o ddeunyddiau ar sail profiadau'r ddwy a'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yng Ngwynedd e.e. llyfr i ymarferwyr yn ymwneud â Fframweithiau ar gyfer Ymarfer i Unigolion, Cydweithwyr, Grwpiau a Rheolwyr Tîm".*

**Beth mae staff yn ei ddeall am yr hyn y mae'r prosiect yn ceisio'i gyflawni; a sut mae pethau'n mynd yn eu barn nhw?**

***Pa mor dda mae'r prosiect wedi perfformio yn erbyn ei darged i wneud ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol?***

--- 1 2-- 3 4 5 x 1 6 x 2 7 x 9 8 x 8 9 x 3 10 x1

Y sgôr ganolrifol ydy **8.6**

**Arsylwadau**

Mae'r cyfweliadau a'r sgoriau'n dangos pa mor bell mae Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi dod mewn byr o amser. Yn fy marn i, dydy'r sgoriau ddim yn cyfleu i ba raddau mae'r prosesau wedi cael eu derbyn a pha mor llwyddiannus maent yn cael eu rhoi ar waith.
Mae'r data a gasglwyd yn atgyfnerthu hyn, yn ogystal â pha mor gefnogol ydy'r adran a Phennaeth y Gwasanaeth i Amddiffyn Plant yn Effeithiol.

Mae'r gweithwyr yn fodlon rhoi llawer o enghreifftiau o'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud gyda llawer o deuluoedd. Roedd enghreifftiau eraill lle nad oedd yn gweithio, ond roedd y gweithwyr yn dweud yn glir bod defnyddio Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu helpu i ddangos eu cymhwysedd proffesiynol, a bod 'Sgyrsiau Cydweithredol', 'Trothwy' clir ac adnabod y 'Newidiadau' sydd eu hangen i ddiogelu plant wedi grymuso teuluoedd.

Fy marn bersonol i ydy bod Amddiffyn Plant yng Ngwynedd yn dod yn fwyfwy effeithiol.

**Sylwadau'r Staff (sampl)**

*"Mae'r model yn gwneud i mi deimlo'n fwy proffesiynol a bod gen i fwy o allu i ddatblygu fy sgiliau.*
*Roedd cynadleddau'n fyrrach gyda mwy o ffocws ynddyn nhw.*
*Mewn tîm aml-asiantaethol, roedd yna broblemau o ran sut oedd gweithwyr asiantaethau eraill yn ymwneud â'r model.*
*Mae adnabod Niwed Arwyddocaol yn bwysig i staff gwaith cymdeithasol, yn ogystal â'r gallu i'w egluro i deuluoedd ac asiantaethau eraill.*
*Mae staff wedi derbyn yr egwyddorion. Mae'r niferoedd sydd wedi bod yn yr hyfforddiant wedi bod yn dda, ac mae hynny wedi helpu.*
*Dechreuodd pethau'n dda iawn yn yr ardaloedd peilot, gyda'r rheolwyr tîm, y mentoriaid a chadeiryddion cynadleddau'n gwbl ymrwymedig i wneud i hyn weithio.*
*Roedd y strwythur a'r prosesau yn eu lle a daeth Dafydd Paul â'r cyfan at ei gilydd.*
*Yn amlwg, arafodd Covid bopeth a dod â phroblemau penodol eraill yn ei sgil.*
*Roedd cynadleddau ar-lein yn anodd, a gwaith asesu a dadansoddi. Ond er gwaethaf hyn, llwyddwyd i wreiddio elfennau Amddiffyn Plant yn Effeithiol ac maen nhw'n gweithio.*
*Targedau clir a'r rheini'n bosib eu cyflawni. Tystiolaeth gref o gyfraniad pobl ifanc.*
*Cynadleddau awr o hyd ydy'r norm erbyn hyn, yn hytrach na'r rhai hirfaith roedden ni'n eu cael ers talwm.*
*Mae'n lleihau mân siarad ac yn rhoi ffocws ar y peth pwysig. Mae'n gryno ac yn dadansoddi'r sefyllfa.*
*Mae'r prosiect yn gwneud yn well na beth mae Dafydd yn ei feddwl!*
*Rhyfeddol o dda, gan ystyried Covid a phroblemau staffio. Mae dyfalbarhad yn hanfodol.*
*Mae gwaith Amddiffyn Plant yr Adran yn fwy effeithiol ac wedi cael ei wreiddio.*
*Mae'n gysylltiedig â niwed arwyddocaol a mater Hawliau Dynol sylfaenol, hynny yw, preifatrwydd.*
*Gan feddwl am y man cychwyn, mae hyn yn llwyddiant go iawn.*
*Mae cefnogaeth Pennaeth y Gwasanaeth a'r Aelod Cabinet wedi bod yn wych.*
*Mae pawb yn yr adran yn rhan o hyn".*

**<u>Beth sydd wedi mynd yn dda? Pa gryfderau sydd wedi dod i'r amlwg?</u>**

***I ba raddau mae ymarferwyr yn defnyddio rhywfaint neu'r cyfan o ddulliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu gwaith bob dydd (oes yna gysylltiad rhwng dyheadau rheng flaen a dyheadau'r prosiect?)***

--- 1   2--   3   4   5   6 x 4   7 x 8   8 x5   9 x 1   10

Y sgôr ganolrifol ydy **7.2**

**Arsylwadau**

Mae sylwadau'r adran flaenorol yn berthnasol iawn i'r adran hon hefyd.
Unwaith eto, yn fy marn i, mae'r sgoriau'n is gan ystyried y defnydd cyfredol y mae staff yn ei wneud o Amddiffyn Plant yn Effeithiol. Maen nhw'n cymryd mai dyma'r 'norm' newydd, a'i bod yn system ddilys sy'n well o lawer na'r system flaenorol.

**Sylwadau'r Staff (sampl)**

*"Positif iawn yn y newid o fod yn y Brifysgol i fynd allan i ymarfer yn y byd go iawn.*
*Mae fframwaith ar gyfer staff yn gwella hyder.*
*Pobl ifanc yn rhan o gynlluniau. e.e. haws deall cyfnodau o adael cartref a chynnydd yn cael ei wneud Roedd person ifanc eisiau dod adref ac fe wnaeth fframwaith Amddiffyn Plant yn Effeithiol ar gyfer newid a mesur helpu i wneud hyn.*
*Hawdd cael gafael ar Dafydd Paul a chefnogaeth barhaus.*
*Hyfforddiant diweddaru i atgyfnerthu'r broses o roi pethau ar waith. Bydd cael mynediad at fideos yn ddefnyddiol.*
*Mentora. Mae'n debyg na fyddai pethau'n symud rhyw lawer heb hyn.*
*Dim byd newydd i ddychryn y teulu mewn cynadleddau ac mae newid yn digwydd.*
*Mesur canlyniadau o ran nifer ar y gofrestr. Uwch yn 2020 ond yn is erbyn hyn.*
*Y Tîm Trothwy ++ yn benodol os ydy'r teulu'n dal ati i weithio gyda nhw*
*Polisi ar gyfer cynadleddau rhithiol *** Data ar ôl cynhadledd ****
*Datblygu profiad staff yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a staff asiantaethau eraill*
*Bydd gweithgor o gadeiryddion cynadleddau a Dafydd yn datblygu hyn ymhellach.*
*Mae Swyddog Cyswllt yr Heddlu yn help mawr, mae'n ychwanegu cysondeb ac yn ddefnyddiol fel adolygydd annibynnol.*
*Grŵp cadarnhaol a chydlynus cadeiryddion cynadleddau a Dafydd Paul.*
*Mentor Ymarfer a sesiynau unigol a grŵp yn cael eu cynnal.*
*Fe wnaeth pethau barhau er gwaetha'r rhwystrau ac mae wedi cael ei sefydlu ar bob lefel yn yr adran."*

- **<u>Beth sydd wedi bod yn fwy anodd?</u>**
  *Beth ydy'r heriau?*

--- 1 2-- 3 4 x 2 5 x 5 6 x 10 7 8 +++ 9 10

Y sgôr ganolrifol ydy **5.4**

**Arsylwadau**

Mae'r sgôr isel yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd llawer o anawsterau. Roedd y prif anawsterau'n ymwneud ag epidemig covid, a chyfnod arbennig o anodd pan oedd ymarferwyr profiadol yn gadael am amrywiol resymau, gan gynnwys cyfnodau mamolaeth a datblygu gyrfa.

Roedd uwch reolwyr yn cydnabod bod cynnal gwasanaeth i safon dda a chyflwyno Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn dipyn o her, ac roeddent yn barod iawn i ganmol gwaith caled ac ymroddiad y gweithwyr.

**Sylwadau'r Staff (sampl)**

*"Cofnodi ychwanegol a chyfraniad asiantaethau eraill*
*Ddim wedi cyrraedd yr un lefel â'r tîm oedd yn cychwyn Amddiffyn Plant yn Effeithiol ddwy flynedd yn ôl, ond mae'n dda bod yn y tranche yma.*
*Mae'n anodd newid ymddygiad teuluoedd sydd wedi bod yn rhan o'r system ers tro.*
*Asiantaethau eraill ddim wastad yn deall y system yn iawn ac am drwsio bob dim.*
*Mae grwpiau craidd yn broblem o hyd. Mae cadeirio a chymryd cofnodion yn cael eu gweld fel tasg i'r gweithiwr cymdeithasol.*
*Staff yn gadael a staff newydd yn cyrraedd. Mae'n cymryd amser, ymdrech a dyfalbarhad i roi system newydd ar waith a'i sefydlu.*
*Mae uchelgais a brwdfrydedd gweithwyr newydd yn ddefnyddiol ond mae angen mwy o amser a chefnogaeth, sy'n anodd.*
*Mae gwaith rhwng asiantaethau'n arafach oherwydd bod angen egluro pethau.*
*Gweithwyr yn teimlo'n ynysig gyda llai o fynediad at gymorth/cyngor a llai o botensial ar gyfer adlewyrchu.*
*Gall fod yn anodd rheoli gwrthdaro o fewn teuluoedd. e.e. aelodau gwahanol o'r teulu mewn ystafell wahanol.*
*Defnydd o fonitro mewn grwpiau craidd.*
*Camau tuag at newid yn cael ei ddefnyddio fel teclyn yn hytrach nag adlewyrchu ar beth sy'n newid go iawn.*
*Asesu o bell, e.e. drwy fideo.*
*Staff rheng flaen yn symud i swyddi datblygu.*
*Mentor yn gadael heb i neb arall gael ei benodi'n llawn amser.*
*Mae darparu gwasanaethau a hybu gwelliannau'n waith caled".*

**<u>Beth sydd angen digwydd nesaf?</u>**

- **Gorffen datblygu adnoddau ymarfer**
- **Dal ati i fentora**
- **Parhau i gasglu data, mentora a nodi unrhyw addasiadau**
- **Adolygu sut mae rhai elfennau o'r Model Risg yn cael eu defnyddio**

**Sylwadau'r Staff (sampl)**

*"Cadw nifer y llwythi achosion yn isel wrth ddechrau gweithio a pharhau a'r mentora.*
*Parhau i hyfforddi. Dal ati i gefnogi ac atgyfnerthu.*
*Atgyfnerthu'r broses o roi popeth ar waith. Bydd cael mynediad at fideos yn ddefnyddiol.*
*Rhoi mewnbwn i asiantaethau eraill. Asiantaethau eraill yn sgorio'u hadroddiadau.*
*Mentora. Mae'n debyg na fyddai pethau'n symud rhyw lawer heb hyn.*
*Cynnwys cynorthwydd personol a'u hyfforddi.*
*Uwch Reolwyr i wneud rhywbeth am yr anawsterau sy'n gysylltiedig â staffio.*
*Symleiddio adroddiadau'r heddlu. Crynhoi adroddiadau'r heddlu fel bod ffocws ar newid*
*Hyfforddiant atgyfnerthu ar wahân i wasanaethau Pobl Hŷn. Hyfforddiant wyneb yn wyneb.*
*Dal ati i annog y gweithlu presennol a chynnig cymorth i'r nifer uchel o weithwyr newydd.*
*Gweithio ar effeithiolrwydd grwpiau craidd.*
*Gorffen datblygu deunyddiau a gwybodaeth ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru a Chymru.*
*h.y. Fideos – deunyddiau hyfforddi – Holi ac Ateb – Llyfr Gwaith ac ymarferion – Cwrs Risg.*
*Sefydlu rôl y mentor fel nodwedd barhaus i gefnogi datblygiad gweithwyr.*
*Derbyn y bydd gwaith datblygu arloesol fel hwn wastad yna nghyflawn ac yn ddi-drefn".*

**Sylwadau o'r cyfweliad:** ***Dyma grynodeb o'r cyfweliad gyda <u>Phennaeth y Gwasanaeth</u>. Yn lle sgorio elfennau unigol, penderfynais y byddai'n fwy buddiol cael trosolwg strategol o'r modd y mae Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi cael ei gyflwyno, sut mae'n gweithio'n ymarferol, yr adborth a gafwyd a beth ddylai ddigwydd nesaf.***

"Roedd penderfyniad yr uwch grŵp rheoli i gyflwyno a threialu 'Amddiffyn Plant yn Effeithiol' yn seiliedig ar lwyddiant y 'Model Risg' a'r gwersi a ddysgwyd ohono. Roedd penderfyniad, dyfalbarhad, sylw i fanylion ac ymrwymiad ar bob lefel i gyd yn hollbwysig.

Erbyn hyn, mae wedi'i sefydlu'n gadarn yng Ngwynedd ac mewn nifer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Lloegr.

Roedd y gwaith o'i gyflwyno a'i dreialu yn seiliedig ar ymarfer presennol da, ac awydd i Wynedd barhau i fod yn arloesol a sicrhau gwelliannau o fewn prosesau Trawsnewid Cymru.

Roedd y penderfyniad i fwrw ymlaen gydag Amddiffyn Plant yn Effeithiol er gwaethaf covid yn bwysig gan nad oeddem am golli'r momentwm.

Rhoddodd hyn lawer o bwysau ar y staff ond roedd y canlyniadau'n werth chweil".

**Adborth**

"Mae wastad wedi bod yn anodd cynnwys rhai teuluoedd mewn prosesau amddiffyn plant, ac mae hyn yn debygol o barhau beth bynnag fo'r system.

Fodd bynnag, cafwyd adborth cadarnhaol am y gallu i osod camau clir er mwyn newid, a'r gallu i fesur y rhain, hyd yn oed os nad oeddent yn gweithio bob tro.

Ar ôl ymwneud â dau deulu fel rhan o'r broses gwyno, roedden nhw'n dweud eu bod yn teimlo'n bositif am y peth 'ysgol' 'na, sef camau tuag at newid, a hynny er y problemau. Roedden nhw'n dweud ei fod "wedi helpu go iawn. Roedd 'na bethau bach roedd y gweithiwr cymdeithasol, yr ymwelydd iechyd a ninnau'n mynd i'w gwneud. Roedd torri'r rhain yn gamau bach yn gwneud popeth yn glir.

Mae niferoedd Amddiffyn Plant wedi gostwng yn ddiogel yn ystod y prosiect".

**Rhannu gwybodaeth**

"Mae sawl cyflwyniad wedi cael ei wneud ac mae rhai o awdurdodau lleol Gogledd Cymru wedi dangos diddordeb. Roeddem yn awyddus i ddisgrifio a rhannu systemau a dysg ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru".

Yn y digwyddiadau hyn, defnyddiwyd fideos o Amddiffyn Plant yn Effeithiol i ddangos sut oedd yn cael ei ddefnyddio mewn ymarfer.

Yn ogystal â'r Model ei hun, mae awdurdodau lleol eraill wedi dangos llawer o ddiddordeb yn ein defnydd o Fentor Ymarfer a sut rydym wedi datblygu swydd newydd fel honno. Rydw i'n gallu gweld manteision hyn i Amddiffyn Plant yn Effeithiol, ond mae manteision y tu hwnt i hynny hefyd. O ran ein daearyddiaeth ni, ac i wneud yn siŵr bod y capasiti gennym; fe hoffwn i weld dau Fentor Ymarfer yn y gwasanaeth hwn".

**Y camau nesaf – o'r cyfweliad gyda Phennaeth y Gwasanaeth**

- Dal ati i ddatblygu amrywiaeth o adnoddau ymarfer ar gyfer staff ac awdurdodau eraill.
- Defnyddio Cronfa Trawsnewid y dyfodol i wreiddio'r model a'i system gymorth gysylltiedig.
- Sefydlu mentora ymarfer a chyllid cynaliadwy swydd mentor Amddiffyn Plant yn Effeithiol; ac edrych ar bosibiliadau i ychwanegu at y capasiti yn y dyfodol.
- Mae 4 swydd gweithiwr cymdeithasol newydd wedi cael eu cytuno ar sail tystiolaeth ynghylch pa mor gymhleth ydy achosion. Rydym yn edrych ar y posibilrwydd o 3 swydd dros dro.

**Atodiad C**

# Amddiffyn Plant yn Effeithiol – Gwerthusiad Mewnol

## Cwmpas/Briff

Cynnwys: Tudalen


| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | | 2 |
| 1A | Nodau | | 2 |
| 1B | Cynllun y Prosiect | | 2 |
| 2 | Amgylchiadau presennol (Ionawr 2022) | | 3 |
| 2A | Datblygiad | | 3 |
| 2B | Cynlluniau ar gyfer y dyfodol | | 6 |
| 3 | Disgrifiad o'r gwerthusiad y gofynnwyd amdano (Ionawr 2022) | | 7 |
| Atodiad 1 | A | Cyfweliadau a awgrymwyd | 8 |
| | B | Canlyniadau a awgrymwyd ar ôl gwerthuso | 8 |
| | C | Themâu a awgrymwyd ar gyfer ymchwiliad rhannol strwythuredig | 9 |
| Atodiad 2 | Data sicrhau ansawdd sy'n cael ei gasglu fel mater a drefn a all fod ar gael fel rhan o'r Gwerthusiad | | 11 |
| Atodiad 3 | Gwerthusiad Interim 2020 | | 13 |

## 1 Cyflwyniad:

### 1A Nodau

Nod ‘Amddiffyn Plant yn Effeithiol’, yn syml iawn, ydy gwneud yn siŵr bod ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol.

Gellir dweud bod gwaith amddiffyn plant yn effeithiol pan fydd ymyriad yn llwyddo i gael gwared ar y tebygolrwydd o niwed arwyddocaol ac yn gwneud yn siŵr bod y gofal y mae plentyn yn ei gael ‘yn ddigon da’. Er mwyn i hyn ddigwydd mae’n rhaid cael newid, ac fel arfer mae hyn yn golygu newid yn ymddygiad y rhieni/gofalwyr neu yn amgylchiadau’r plentyn.

Mae ‘Amddiffyn Plant yn Effeithiol’ yn newid y pwyslais amddiffyn plant i roi ‘ffocws ar newid’. Dyma’r newid sy'n angenrheidiol er mwyn lleihau'r risg o niwed arwyddocaol.

Mae’n cyflawni'r hyn sy’n ofynnol o dan Ddeddf 2014 yng Nghymru, ac yn cynnig methodoleg ar gyfer mesur canlyniadau. Mae sgìl arbennig wrth wraidd hyn, sef cyfathrebu cydweithredol gyda theuluoedd, sy’n anelu at ddatblygu perthynas waith dda a chadarnhaol a chydweithio â nhw. Mae hyn yn hollol groes i’r gwrthwynebiad a’r gwrthdaro a achosir yn aml gan ymarfer amddiffyn plant traddodiadol, lle rhoddir ffocws ar fethiannau a diffygion mewn gofal.

Felly:

- Cael sgyrsiau gwell i gadw plant yn ddiogel
- Ffocws ar newid
- Mesur cynnydd tuag at ganlyniadau mwy diogel

### 1B Cynllun y Prosiect

Lansiwyd prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn ffurfiol ym mis Ionawr 2019, a dechreuodd y Mentor Ymarfer yn ei swydd ym mis Mawrth 2019. Cafodd y prosiect ei ariannu'n wreiddiol am ddwy flynedd, ac mae wedi elwa o gyfnod cyllido pellach hyd at fis Mawrth 2022.

Y prif ffocws oedd cyflwyno Amddiffyn Plant yn Effeithiol yng Ngwynedd, gam wrth gam drwy’r amrywiol dimau. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ffurfiol a sesiynau mentora grŵp ac 1:1 gyda’r Mentor Ymarfer.

Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhoda Emlyn Jones), hyfforddiant ar y Model Risg (Bruce Thornton) a hyfforddiant Amddiffyn Plant yn Effeithiol (Dafydd Paul).

Dechreuodd y gwaith o gyflwyno'r prosiect yng Ngwynedd yn ardal Dwyfor a Meirionnydd, gyda chymorth gweithredol y Rheolwr Tîm, Heidi Rylance. Yna cafodd ei ymestyn i Dimau Gwaith Cymdeithasol Derwen (Plant ac Anabledd) 16+ ac Arfon 1 ac Arfon 2. Cafodd COVID fwy o effaith yn nes ymlaen.

Gellir disgrifio Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant fel proses o 'gadw'r porth' wrth gyflwyno Amddiffyn Plant yn Effeithiol. Yn ystod oes y prosiect, mae rôl y Cadeirydd wedi newid, ac wedi dylanwadu ar gysondeb. Ar y dechrau, roedd Sue Adams (Cydlynydd Amddiffyn Plant) yn amlwg iawn nes iddi ymddeol ym mis Medi 2020, ac yna daeth y Cadeiryddion ymgynghorol/interim, Non Davies a Delyth Davies. Ers mis Hydref 2021, mae Delyth Davies wedi gallu ymgymryd â'i phrif rôl fel Cydlynydd Amddiffyn Plant, ac mae Cadeiryddion newydd wedi cael eu penodi erbyn hyn hefyd, sef Llio Williams ac Ann Taylor. Bydd hyn yn rhoi cyfnod o well sefydlogrwydd ar gyfer y rôl.

Ar ôl mis Mawrth 2020, aeth Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant o fod yn rhai wyneb yn wyneb i fod yn Gynadleddau rhithiol a gynhaliwyd dros MS Teams. Mae hyn yn dal yn wir ym mis Ionawr 2022. Mae COVID wedi amharu llawer ar waith y cynadleddau, ar natur ymarfer amddiffyn plant wyneb yn wyneb i weithwyr cymdeithasol, ac ar ymateb sefydliadol amrywiol asiantaethau i'w dyletswyddau diogelu.

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020, roedd tri chomisiwn gwerthuso ar y gweill. Roeddent wedi cael eu trefnu cyn COVID, ac i fod yn werthusiadau interim, hanner ffordd, ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y prosiect dwy flynedd cychwynnol.

Tarfodd COVID rhywfaint ar y gwerthusiad, ond dyma'r neges allweddol i raddau helaeth:

- Roedd model Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn arloesol ac yn dangos effaith gadarnhaol ar ymarfer; roedd anogaeth i ddal ati er gwaethaf COVID
- Roedd prosesau Mentora Ymarfer Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn arloesol ac yn gwneud defnydd da o elfennau hanfodol cymell a mentora yn y rhaglen unigryw hon.

Roedd y prosiect yn cael ei reoli gan Dafydd Paul, Uwch Reolwr (Arweinydd y Prosiect), Wendy Roberts (Mentor Ymarfer) a Meinir Owen, (Rheolwr Prosiect Corfforaethol 0.4 FTE).

## 2 Amgylchiadau presennol (Ionawr 2022)

### 2A Datblygiad

Mae'r prosiect wedi parhau ar y cyfan, er gwaethaf COVID. O'i gymharu â llawer o brosiectau eraill a ariannwyd yn rhanbarthol, mae wedi dal ati'n hyderus i fodloni'r amrywiol gerrig milltir, er gwaethaf COVID; ac o ran datblygu Adnoddau Ymarfer, mae wedi dod yn fwyfwy uchelgeisiol.

Mae wedi hyfforddi staff a'u hannog i ddefnyddio fframweithiau Amddiffyn Plant yn Effeithiol, yn fwyaf amlwg yn eu Hadroddiadau i Gynadleddau Achos, mewn Cynadleddau Achos ac yng ngwaith y Grwpiau Craidd.

**Adroddiadau Gweithwyr Cymdeithasol i Gynadleddau Achos** – fel rhan o strwythur Adroddiadau Gwaith Cymdeithasol, ceir dadansoddiad o'r risg o niwed arwyddocaol, ac adran i adnabod 'beth sydd angen newid' (yn ddelfrydol, hyd at dri pheth a dim mwy na phump) er mwyn lleihau'r risg o niwed arwyddocaol. Ar gyfer pob newid, rhaid nodi pam bod gofal 'ddim yn ddigon da' ar hyn o bryd a sut byddai gofal sydd 'yn ddigon da' yn edrych yn y dyfodol.

**Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant** – erbyn hyn (ar ôl Amddiffyn Plant yn Effeithiol) dylai fformat Cynadleddau Achos gynnwys adran ar y diwedd lle trafodir 'Beth sydd angen newid', beth sydd 'ddim yn ddigon da' a beth sydd 'yn ddigon da'. Mae hyn yn golygu trin a thrafod ar y cyd i amlinellu gwaith y Grŵp Craidd, fel sail ar gyfer datblygu'r Cynllun Amddiffyn Plant. Y Cadeirydd sy'n arwain y gwaith hwn, ac i raddau helaeth gall ddefnyddio'i arddull a'i fethodoleg ei hun. Bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd y Gynhadledd, ac erbyn hynny mae pawb wedi blino a'r Cadeirydd yn ei chael yn anodd cadw momentwm tan y diwedd.

**Grwpiau Craidd** – Er mwyn cadw ffocws ar newid, defnyddir 'Camau tuag at Newid' i fapio'r cynllun i weithio ar bob newid gyda'r nod o sicrhau bod gofal 'yn ddigon da'. Dylai Grwpiau Craidd allu rhoi diweddariad i'r Cynadleddau Achos nesaf am y newidiadau a'r cynnydd (a fesurwyd) wrth gyflawni'r newid yr anelir ato.

**Cyffredinol** – mae Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn cynnwys sawl elfen wahanol. Disgrifir y cynnydd mewn perthynas â phob elfen isod:

- **Sgyrsiau**

  Mae elfen datblygu sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol yn cael ei noddi gan raglen genedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru; mae'n seiliedig ar egwyddorion Cyfweld Ysgogiadol (a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, Opsiwn 2). Mae staff wedi cael eu hyfforddi a grwpiau mentora wedi cael eu sefydlu. Er bod sôn am lwyddiannau Cyfathrebu Cydweithredol ym maes amddiffyn plant, roedd hynny i raddau helaeth lle'r oedd buddsoddiad system gyfan gan Lywodraeth Cymru mewn awdurdodau fel Castell-nedd Port Talbot yn ystod ymyriad. Yng Ngwynedd, mae'r rhan fwyaf o staff wedi cael hyfforddiant ac wedi cael eu hannog i ystyried y dull hwn o weithio, sy'n rhoi pwyslais ar gryfderau a chanlyniadau. O ran COVID, nid oedd ffordd benodol o ddelio gyda Cyfathrebu Cydweithredol, ac nid oes llawer o dystiolaeth o allu ymarferwyr i wneud y defnydd gorau posib o hynny yn ystod COVID a gwaith rhithiol. Yn ôl staff, mae mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r sgiliau sy'n gysylltiedig â gweithio yn y ffordd yma.

- **Trothwy**

  Mae ymarferwyr yng Ngwynedd wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r Model Risg dros nifer o flynyddoedd.

- **Newid**

  Mae'r elfen 'ffocws ar newid' yn cael ei chyflwyno yng nghwrs hyfforddi Amddiffyn Plant yn Effeithiol. Mae matrics 'beth sydd angen newid', y datganiadau 'ddim yn ddigon da' ac 'yn ddigon da' yn cael eu cyflwyno yn yr Adroddiad i Gynhadledd ac yna byddant yn cael eu defnyddio i lunio'r Cynllun Amddiffyn Plant a Camau tuag at Newid ac ati.

- **Mesur**

  Mae'r elfen 'Camau tuag at Newid' yn cael ei chyflwyno yng nghwrs hyfforddi Amddiffyn Plant yn Effeithiol. O ran defnydd ac integreiddio, mae'n debyg i'r elfen Newid.

  Yn y gwerthusiad interim, soniwyd efallai fod angen mwy o gyfarwyddyd ac esboniad ar gyfer yr elfen hon.

- **Mentora Ymarfer**

  Roedd Mentora Ymarfer yn rhan hollbwysig o brosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol, a chyflogwyd Wendy Roberts yn Fentor Ymarfer. Roedd hi yn y swydd rhwng mis Mawrth 2019 a Mawrth 2021, tan iddi symud i swydd newydd fel Darlithydd Prifysgol. Mae hi wedi dal ati i weithio gyda ni'n llawrydd i gynhyrchu deunyddiau ar gyfer pecynnau Adnoddau Ymarfer.

  Yn ei rôl fel Mentor Ymarfer, roedd yn darparu sesiynau mentora 1:1 gyda phob gweithiwr cymdeithasol ac yn cynnal grwpiau adlewyrchol. Pan adawodd y swydd, penderfynwyd nad oedd yn ymarferol penodi neb arall i swydd oedd yn gofyn am sgiliau mor benodol, a chyfnod cyllido mor fyr yn weddill.

  Fel cynllun wrth gefn, yn nes ymlaen yn 2021, cymerodd Sue Adams, Cydlynydd Amddiffyn Plant a oedd wedi ymddeol yn ddiweddar, rywfaint o'r sesiynau Mentora Ymarfer 1:1. Er i bethau amharu ar ein rhaglen wreiddiol, bu'n bosib cynnig sesiynau 1:1 i staff wrth i 2021 fynd ymlaen.

  Os byddwn yn llwyddo i gael arian ar ôl mis Mawrth 2022, byddwn yn penodi Mentor Ymarfer fel swydd barhaol.

  Dyma'r maes sydd wedi ennyn y diddordeb mwyaf yn y prosiect, ac mae hynny'n wir hyd heddiw; nid sut mae model Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn gweithio, ond beth mae'r

Mentor Ymarfer yn ei wneud a sut rydym ni'n defnyddio'r rôl honno. Mae'n cael ei ystyried yn arloesol.

- **Ymarfer Adlewyrchol**

  Un maes rydym wedi buddsoddi ynddo dros y ddwy flynedd ddiwethaf ydy hyfforddiant ymarfer adlewyrchol a sesiynau 1:1 gyda Siobhan Maclean. Roedd hyn yn canolbwyntio ar weithwyr cymdeithasol ond yn 2021 rydym wedi comisiynu ymyriad gyda Rheolwyr Tîm. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, ac fel rhan o Adnoddau Ymarfer Amddiffyn Plant yn Effeithiol, mae Pecyn Ymarfer Adlewyrchol ar gyfer Rheolwyr Tîm wrthi'n cael ei roi at ei gilydd. Mae Wendy Roberts a Siobhan Maclean yn dal i weithio gyda'i gilydd yn y maes 'niche' hwn ar ran y prosiect.

- **Adnoddau Ymarfer**

  Cyn COVID, roedd prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi ymrwymo i ddatblygu ei ddeunyddiau hyfforddi fel eu bod ar gael yn rhithiol, rhag ofn na fyddai ymarferwyr yng Ngwynedd ar gael i hyfforddi rhanbarthau eraill yng Ngogledd Cymru a thu hwnt ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Mae COVID wedi rhoi mwy o bwysau ar hyn ac mae'r gwaith hwn yn parhau.

  Fodd bynnag, yn sgil COVID, roedd pethau eraill yn galw ar yr adnoddau yr oedd eu hangen i gynhyrchu fideos, ac ar ôl i Wendy Roberts adael, mae Dafydd Paul wedi bod yn ymgymryd â'r gwaith o ysgrifennu'r deunyddiau ar ei ben ei hun. Mae'r gwaith hwn yn parhau, gyda'r nod o ddarparu adnoddau prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol ar sgyrsiau, trothwy, newid a mesur, Mentora Ymarfer ac Ymarfer Adlewyrchol.

  Mae hyn yn estyniad uchelgeisiol iawn i'r prosiect, sydd wedi bod yn dipyn o her. Mae'r dasg o gyflwyno'r deunyddiau wedi cymryd dipyn o amser am amrywiol resymau. Ond mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen yn gyflym.

- **Argyfwng staffio**

  Ddiwedd 2020, gwelwyd prinder staffio aruthrol. Ar un adeg, roedd sawl aelod o staff mewn un tîm ar gyfnod mamolaeth ar yr un pryd, a staff yn gadael eu swyddi. Roedd hyn yn gysylltiedig â COVID i ryw raddau, ond roedd ffactorau eraill yn cyfrannu hefyd, gan gynnwys gwell taliadau cydnabyddiaeth a buddion staff mewn timau ac awdurdodau eraill. Gwnaed addasiadau tymor byr i ail-leoli staff; a hynny weithiau er nad oedden nhw eu hunain yn dymuno symud. Parhau mae'r argyfwng, yn yr un modd ag effeithiau cymryd y camau wrth gefn ar y pryd. Mae hyn, ar ben COVID, wedi bod yn nodweddiadol o'r cyfnod rhwng diwedd 2020 a dechrau 2022. Mae wedi bod yn gefndir i waith y prosiect wrth geisio rhoi Amddiffyn Plant yn Effeithiol ar waith yn ymarferol.

Mae ymgynghorydd allanol wedi cael ei gomisiynu i roi barn annibynnol ar yr opsiynau sydd ar gael i'r gwasanaeth er mwyn delio â´r heriau hyn, heddiw ac yn y dyfodol.

## 2B Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Mae'r prosiect hwn wedi cael ei noddi'n rhanbarthol fel bod yr adnoddau a'r hyn a ddysgir ar gael i 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru; os ydynt yn dymuno eu defnyddio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio opsiwn cyllido ar gyfer y dyfodol, lle bydd modd ymestyn rhai prosiectau. Y gobaith ydy y bydd prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn cael cefnogaeth am 5 mlynedd arall. Nid oes cadarnhad hyd yn hyn.

Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar am ymchwiliadau cenedlaethol i farwolaethau trasig yn Lloegr; bydd y maes amddiffyn plant yn dod o dan y chwyddwydr unwaith eto, yn union fel ddigwyddodd ar ôl marwolaeth Babi Peter. Oherwydd hyn, **mae'n bwysicach nag erioed bod y gwaith hwn yn parhau ac yn cael ei gefnogi**.

## 3 Disgrifiad o'r gwerthusiad y gofynnwyd amdano (Ionawr 2022)

3.1 Y comisiwn yn llunio **adroddiad byr** yn seiliedig ar gyfres o gyfweliadau byr gydag ymarferwyr a phartneriaid, er mwyn ysgrifennu dadansoddiad o'r canlynol:

- llwyddiant cyffredinol y prosiect wrth gyflawni ei nod
- ydy ymarferwyr yn defnyddio rhywfaint o ddulliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol neu'r cyfan ohonynt yn eu gwaith bob dydd (h.y. pa mor dda ydy'r cysylltiad rhwng yr hyn sy'n digwydd ar y rheng flaen a'r hyn y mae'r prosiect yn ceisio'i gyflawni?)
- y cryfderau a nodwyd (beth sy'n mynd yn dda?)
- yr anawsterau (beth ydy'r heriau?)
- anogaeth (argymhellion) ar gyfer
    - cyfeiriad y prosiect drwyddo draw
    - meysydd penodol sydd angen sylw
- barn arbenigwyr
    - safbwyntiau arbenigwyr ar yr hyn y mae prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi'i gyflawni hyd yn hyn
    - cyngor arbenigol i lywio gwaith cynllunio yn y dyfodol.

2.2 Bydd adroddiad byr yn cael ei lunio, sef 'Adroddiad Gwerthuso Prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol – Mawrth 2022'



Dafydd Paul
Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd (Arweinydd y Prosiect)
05/01/2022

*M Owen*

Meinir Owen.
Rheolwr y Prosiect.
05 Ionawr 2022

## Atodiad D – Briff Gwerthuso

### A Cyfweliadau

Fy awgrym i ydy fod mwy o fudd i’r sgyrsiau hyn fod yn gryno ac i’r pwynt, ond eu bod hefyd yn cael eu cynnal ar sail 1:1, er mwyn rhoi cyfle i unigolion rannu eu safbwyntiau heb i unigolion eraill mewn grŵp ddylanwadu arnynt. Fodd bynnag, mae ambell dîm wedi awgrymu cyfarfod grŵp o weithwyr cymdeithasol, ac rwy'n meddwl y gallai hynny weithio gyda rhai asiantaethau eraill hefyd.

- Cadeiryddion Amddiffyn Plant
  - Non Davies
  - Delyth Davies
  - Llio Williams
- Rheolwyr Tîm Gofal Cymdeithasol Plant
  - Stephanie Dabernig
  - David Lewis
  - David Owen
  - Heidi Rylance
- Gweithwyr cymdeithasol penodol
  - Tîm Gwaith Cymdeithasol Derwen fel grŵp (Julie Bragan, Bethan Williams, Non Pierce, Zoe Roberts-Williams, Llinos Roberts, Alisha Jones)
  - Enwau eraill i’w cadarnhau
- Cynrychiolwyr o asiantaethau eraill sy'n ymwneud â Chynadleddau Achos Amddiffyn Plant a/neu Grwpiau Craidd
  - Alex Scrace (Nyrs Seiciatrig Gymunedol)
  - Dr Sian Owen (Meddyg Cynorthwyol a Enwir)
  - Lucy Owen (Heddlu Gogledd Cymru)
  - Angela Owen (Swyddog Lles Addysg)
  - Iola Jones ac Anwen Jones (Nyrsys Ysgol)
- Mentoriaid Ymarfer

    - Sue Adams
    - Wendy Roberts
- Tîm Prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol (Arweinydd y Prosiect a Rheolwr y Prosiect)
    - Dafydd Paul a Meinir Owen
- Uwch Reolwyr
    - Sharron Carter
    - Aled Gibbard
- Pennaeth y Gwasanaeth
    - Marian Parry Hughes

## B Canlyniadau a awgrymwyd ar ôl gwerthuso

- Adroddiad byr i ddadansoddi

- Pa mor dda mae'r prosiect wedi perfformio yn erbyn ei darged i wneud ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol?
- I ba raddau mae ymarferwyr yn defnyddio rhywfaint neu'r cyfan o ddulliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu gwaith bob dydd (oes yna gysylltiad rhwng dyheadau rheng flaen a dyheadau'r prosiect?)
- Pa gryfderau sydd wedi dod i'r amlwg (beth sydd i weld yn mynd yn dda?)
- Pa anawsterau sydd wedi dod i'r amlwg (beth ydy'r heriau?)
- Pa anogaeth sydd yna ar gyfer y dyfodol? (argymhellion) ar gyfer
    - cyfeiriad y prosiect drwyddo draw
    - meysydd penodol sydd angen sylw
- Beth ydy'ch barn chi fel arbenigwr
    - safbwyntiau arbenigwyr ar yr hyn y mae prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi'i gyflawni hyd yn hyn
    - cyngor arbenigol i lywio gwaith cynllunio yn y dyfodol.

## C Themâu a awgrymwyd ar gyfer ymchwiliad rhannol strwythuredig

Cyflwyniad

Rôl y Gwerthuswr (Bruce Thornton) yw:

- ystyried safbwyntiau gwahanol am y prosiect a
- dod â nhw at ei gilydd i greu trosolwg cyffredinol.

Math o ddadansoddiad ydy'r gwerthusiad, a'r cwestiwn y mae'r dadansoddiad yn ceisio'i ateb ydy:

***Ydy gwaith amddiffyn plant yng Ngwynedd yn fwy effeithiol ar ôl mabwysiadu'r model Amddiffyn Plant yn Effeithiol?***

Ei bwrpas ydy:

- Gweld sut mae'r prosiect yn datblygu yn erbyn ei bwrpas/nod (gwerthuso/dadansoddi)
- Bod yn gadarnhaol ac yn flaengar
- Gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud am wersi posib
- Meddwl am oblygiadau'r uchod a sut gallai hyn ddylanwadu ar gyfeiriad yn y dyfodol.

Bydd y drafodaeth yn edrych ar yr hyn yn mae'r prosiect yn ceisio'i wneud drwyddo draw, gan edrych ar bedair elfen Amddiffyn Plant yn Effeithiol, sef sgyrsiau cydweithredol, asesiadau risg da, ffocws ar newid a mesur cynnydd. Roedd hefyd yn sôn am ymarfer adlewyrchol a mentora ymarfer.

Strwythur posib ar gyfer yr **adroddiad**

- Pa mor dda mae'r prosiect wedi perfformio yn erbyn ei darged i wneud ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol?
- I ba raddau mae ymarferwyr yn defnyddio rhywfaint neu'r cyfan o ddulliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu gwaith bob dydd (oes yna gysylltiad rhwng dyheadau rheng flaen a dyheadau'r prosiect?)
- Pa gryfderau sydd wedi dod i'r amlwg (beth sydd i weld yn mynd yn dda?)
- Pa anawsterau sydd wedi dod i'r amlwg (beth ydy'r heriau?)
- Pa anogaeth sydd yna ar gyfer y dyfodol? (argymhellion) ar gyfer
    - cyfeiriad y prosiect drwyddo draw
    - meysydd penodol sydd angen sylw
- Beth ydy'ch barn chi fel arbenigwr
    - safbwyntiau arbenigwyr ar yr hyn y mae prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi'i gyflawni hyd yn hyn
    - cyngor arbenigol i lywio gwaith cynllunio yn y dyfodol.

Strwythur posib ar gyfer **cyfweliadau**

Gall eich cyfweliadau gyda staff fod yn strwythuredig neu fel arall, fel y gwelwch chi orau. Bydd rhai o'r bobl fydd yn cael eu cyfweld yn gallu ateb yn fwy llawn nag eraill, gan ddibynnu ar eu hasiantaeth, eu rôl a pha mor gyfarwydd ydyn nhw gydag ymarfer Amddiffyn Plant yn Effeithiol.

Fodd bynnag, fe allai'r sgwrs wneud y canlynol:

- trafod eu barn ynghylch beth mae'r prosiect yn ceisio'i wneud yn gyffredinol a sut mae pethau'n mynd

- trafod pedair elfen Amddiffyn Plant yn Effeithiol, sef sgyrsiau cydweithredol, asesiadau risg da, ffocws ar newid a mesur cynnydd er mwyn deall ymwybyddiaeth a phrofiad rhywun o'r elfennau hyn
- trafod eu dealltwriaeth a'u profiad o ymarfer adlewyrchol a mentora ymarfer.

Cyffredinol

- Eu barn ynghylch beth mae'r prosiect yn ceisio'i gyflawni; a pha mor llwyddiannus ydy o wrth wneud hynny?
- Beth sydd wedi mynd yn dda?
- Beth sydd wedi bod yn fwy anodd?
- Beth sydd angen digwydd nesaf?
- Beth fydd effaith debygol yr achosion diweddar o farwolaethau plant, sydd wedi cael llawer o sylw? Beth fydd effaith hyn ar amddiffyn plant a beth ydy rôl Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn yr heriau mae'r sector yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Yn benodol

Yn yr amrywiol gyfweliadau, bydd lefelau penodol o ddealltwriaeth, adnabyddiaeth a manyldeb a fydd yn fwy perthnasol i rai o'r cohortau nag eraill.

## Gwerthusiad Interim – Atodiad 1

**Data sicrhau ansawdd sy’n cael ei gasglu fel mater a drefn a all fod ar gael fel rhan o'r Gwerthusiad**

**Yn gyffredinol:**

Ym mhob Cynhadledd Gychwynnol a Chynhadledd Adolygol, byddwn yn gofyn fel mater o drefn:

“Ym marn y Cadeirydd, a oedd yr asesiad o’r risg o niwed arwyddocaol yn seiliedig ar fethodoleg broffesiynol (e.e. Risg 2)?”

**Data Sicrhau Ansawdd a gasglwyd ar gyfer Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant Cychwynnol**

Ym marn y Cadeirydd, ydy’r gynhadledd wedi nodi'r newid/newidiadau y mae angen i’r plentyn/teulu eu gwneud?

Ym marn y Cadeirydd, ydy'r gynhadledd wedi nodi datganiad 2 ac 8 ar gyfer pob newid?

Ym marn y Cadeirydd, ydy’r gynhadledd wedi gweithio mewn ffordd gydweithredol (er enghraifft, pawb yn parchu ei gilydd, pawb yn cael cyfle i gyfrannu, adeiladol, cydnabod cryfderau’r teulu)?

Ym marn y Cadeirydd, ydy'r teulu/plentyn yn deall y newid/newidiadau sydd angen digwydd

Ym maen y Cadeirydd, ydy'r plentyn/teulu yn deall eu rhan nhw yn y gwaith hwn

**Data Sicrhau Ansawdd a gasglwyd ar gyfer Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant Adolygol**

Ym marn y Cadeirydd, ydy’r gynhadledd wedi nodi'r newid/newidiadau y mae angen i’r plentyn/teulu eu gwneud

Ym marn y Cadeirydd, ydy’r risg o niwed arwyddocaol wedi cael ei leihau ers y gynhadledd ddiwethaf?

Ym marn y Cadeirydd, ydy'r gynhadledd wedi nodi datganiad 2 ac 8 ar gyfer pob newid?

Ym marn y Cadeirydd, ydy’r gynhadledd wedi gweithio mewn ffordd gydweithredol (er enghraifft, pawb yn parchu ei gilydd, pawb yn cael cyfle i gyfrannu, adeiladol, cydnabod cryfderau’r teulu)?

Ym marn y Cadeirydd, ydy'r plentyn/teulu yn deall y newid/newidiadau sydd angen digwydd?

Ym marn y Cadeirydd, ydy'r plentyn/teulu yn deall eu rhan yn y gwaith hwn?

Ym marn y Cadeirydd, ydy'r plentyn/teulu yn gweithio ar y newid fel rhan o’r Grŵp Craidd?

Ym marn y Cadeirydd, ydy'r plentyn/teulu yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn effeithiol yn y Grŵp Craidd?

Cynnydd yn y Cynllun Amddiffyn Plant – yn erbyn pob newid, fel y gwiriwyd yn y gynhadledd adolygol

Ydy’r sgôr wedi gwella ers y gynhadledd flaenorol?
Sgoriau (y gynhadledd flaenorol) a’r gynhadledd gyfredol.

# Gwerthusiad Interim – Atodiad 2

## Gwerthusiad Interim 2020

Cafodd **Gwerthusiad Interim** ei gomisiynu tuag at ddiwedd cam cyntaf y prosiect, yn ystod Ionawr-Mawrth 2020. Roedd hyn yn cynnwys 3 maes ffocws ar wahân.

- 1A – Dadansoddi Cofnodion ac Adroddiadau cyn/ar ôl y prosiect
- 1B – Cyfweliadau gydag ymarferwyr
- 1C – Gwerthuso defnydd o fentora

Yn anffodus, effeithiodd cyfyngiadau COVID ar gyfweliadau Non Davies (1B) a bu'n rhaid eu gohirio. Canslwyd rhai o'r cyfweliadau oedd wedi'u trefnu tan rywbryd eto. Daeth yn anodd aildrefnu'r rhain, ond roedd y prosiect yn awyddus i gwblhau'r gwerthusiad. Pan gynhaliwyd y cyfweliadau, roedd y gweithlu wedi bod drwy gyfnod anodd, ac mae'n anodd gwybod faint o effaith y mae hyn wedi ei gael ar ba mor eglur a chyflawn ydy'r gwerthusiad.

Roedd Gwerthusiadau 1A ac 1C wedi cael eu cwblhau cyn COVID, neu nid oedd yn cael cymaint â hynny o effaith arnynt.

O edrych yn ôl, dylai 1B fod wedi cael ei ohirio o ganlyniad i COVID.

## 1A Bruce Thornton

**Briff:**

Mae Bruce Thornton yn ymgynghorydd ac yn hyfforddwr. Mae'n broffesiynol gymwys i ddadansoddi'r materion penodol sy'n ymwneud ag ymarfer yn y ffeiliau achos.

Gofynnwyd i Bruce Thornton edrych ar sampl o ffeiliau achos ar gyfer y cyfnod cyn ac ar ôl cyflwyno egwyddorion Amddiffyn Plant yn Effeithiol i ymarfer Amddiffyn Plant. Yn benodol, roedd ffocws ar Gynadleddau Achos, lle edrychwyd ar Gofnodion Cynadleddau Achos ac Adroddiadau Gweithwyr Cymdeithasol i Gynadleddau Achos. Y dasg oedd gwerthuso a oedd gwahaniaeth amlwg mewn ymarfer ers i'r prosiect gael ei roi ar waith.

Mae'r canfyddiadau'n glir – mae ymarfer yn wahanol iawn, hyd yn oed yn y dyddiau cynnar hyn.

**Canfyddiadau:**

Mae pob achos yr edrychwyd arno, i bob golwg, wedi cael ei oruchwylio gan yr un rheolwr tîm. Roedd yn amlwg o'r cofnodion ei bod yn goruchwylio gweithwyr cymdeithasol yn dda iawn, yn gyfarwydd â'r teuluoedd ac yn cymryd rhan amlwg mewn penderfyniadau. Roedd enghreifftiau lu o ymarfer da iawn gan weithwyr cymdeithasol a'u rheolwr.

Roedd mentor y prosiect wedi gweithio gyda'r gweithiwr cymdeithasol ar lawer o'r achosion hyn yn mentora.  Roedd hyn i weld yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad y prosiect. Er mwyn mesur effeithiolrwydd, mae angen ffocws clir ar beth sy'n ceisio cael ei gyflawni. Yn amryw o'r achosion cynnar (cyn Amddiffyn Plant yn Effeithiol), roedd yn anodd gweld beth oedd hyn. Mae'r prosiect yn rhoi syniad clir o gyfeiriad ac yn rhannu'r cyfan yn bedair elfen. Pan fydd y rhain yn cael eu hegluro, maent yn edrych yn amlwg, ac fe fyddaf i, ac eraill o bosib, yn gofyn y cwestiwn pam nad oes neb wedi meddwl am hyn o'r blaen.

Fodd bynnag, rhaid rhoi clod am y gwaith datrys problemau sydd wedi cael ei wneud i ddod o hyd i ateb ar gyfer hyn, ac am y dyfalbarhad a'r dycnwch i gyflawni.

Y pedair elfen yn cael eu profi'n ffurfiol oedd sylfaen yr ymchwiliad hwn.

Mae'r casgliadau cyffredinol yn glir ac yn bendant.

- Mae'r prosiect yn gweithio'n dda iawn ac yn symud cynadleddau amddiffyn plant ac ymarfer cysylltiedig i lefel newydd o eglurder a ffocws sy'n seiliedig ar waith dadansoddi a thystiolaeth.

- Mae'n annog cynadleddau, rheolwyr ac ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau ymhellach yn y meysydd hyn, gyda golwg ar sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n effeithiol.

- Yn ddi-os, bydd angen datblygiadau ac addasiadau pellach, ond mae'r prosiect, hyd yn oed ar y cam hwn, yn llwyddiant diamheuol ac ryw'n argymell y dylai barhau i gael cymorth.

Ni awgrymwyd unrhyw addasiadau technegol o ran datblygiad y model, ond roedd neges Bruce Thornton yn glir, sef y dylid bwrw ymlaen â'r model gyda hyder.

## 1B Non Davies

**Briff:**

Mae Non Davies yn weithiwr cymdeithasol profiadol, yn ymgynghorydd ac yn hyfforddwr. Mae hi wedi bod yn hyfforddi ac yn ymgynghori mewn meysydd sy'n ymwneud â Deddf 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Gofynnwyd i Non Davies gyfweld staff gan ddefnyddio methodoleg cyfweld lled-strwythurol, er mwyn dod i gasgliad ynghylch pa mor dda oedd syniadau Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn treiddio i feddyliau gweithwyr cymdeithasol a sut roeddent yn creu ystyr o bethau.  Rhoddwyd pwyslais ar y geiriau yr oedd ymarferwyr yn eu defnyddio i ddisgrifio gwaith, sut oeddent yn

fframio ymarfer a sut roeddent yn gwneud synnwyr o'u gwaith.  Bwriad hynny oedd profi sut oedd y syniadau sylfaenol yn dylanwadu ar ymarfer.

Pan gomisiynwyd y gwaith, roedd cyfiawnhad dros y gwaith cynnil a manwl o werthuso sut yr oedd gweithwyr yn creu ystyr o bethau, a hynny er mwyn sicrhau bod bwriad y prosiect a'i effaith yn cyd-fynd â'i gilydd.  Fodd bynnag, gyda COVID, roedd y gweithlu'n wynebu heriau ac argyfwng cynyddol, felly roedd y cyfweliadau'n fwy anodd.

Roedd y gwerthusiad yn dangos bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth sylfaenol o elfen graidd Amddiffyn Plant yn Effeithiol.  Roedd hyn yn amlwg o ran creu ystyr o bethau a sut yr oedd geiriau a chysyniadau'n cael eu defnyddio.  Fodd bynnag, roedd angen mwy o sylw i wreiddio'r elfennau 'newid' (datganiad newid) a mesur (Camau tuag at Newid) sydd yn y model.

**Canfyddiadau**

- Mae'r broses werthuso wedi digwydd dros gyfnod. Cynhaliwyd 3 cyfweliad cychwynnol ddiwedd Mawrth yn ystod wythnos gyntaf y cyfnod clo, a chynhaliwyd y rhai eraill ym mis Mehefin/Gorffennaf. Roedd y ffocws ar y cyfnod cyn mis Mawrth yn anodd, a manteisiwyd ar gyfle i ddysgu o'r cyfnod ar ôl COVID.
- Mae effaith COVID yn dod i'r amlwg, gan gynnwys ar asesiadau a Chynadleddau Amddiffyn Plant ac ati. Mae'n anodd gwybod i ba raddau y gellir priodoli unrhyw heriau o ran cyflwyno/gwreiddio i Covid-19 a'i oblygiadau.
- Cyfatebiaeth debyg rhwng cysyniadau canolog Amddiffyn Plant yn Effeithiol – mae newid a mesur yn berthnasol i'r gwerthusiad.
- Angen sicrhau a chynnal 'Sylfaen Ddiogel' ar gyfer ymarferwyr (beth bynnag fo'r cysyniadau a'r fframweithiau, all ymarferwyr ddim diogelu'n effeithiol oni bai eu bod yn teimlo'n saff ac yn ddiogel eu hunain).
- Yn ôl yr ymatebwyr, roeddent yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth dda o ran Prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol a'r amrywiol adnoddau cymorth sydd ar gael.
- Roedd yr ymarferydd yn hanfodol wrth gymhwyso cysyniadau i ymarfer, yn enwedig mewn sefyllfa amlasiantaethol, ac mae'n allweddol wrth gychwyn ar fodel newydd.
- **Mae angen mwy o hyder wrth ddefnyddio'r cysyniadau Newid a Mesur.**
- **Hyfforddiant penodol ar gyfer defnyddio cysyniadau Amddiffyn Plant yn Effeithiol a'r ddau fandad gofal a rheolaeth.**
- **Cynnwys a Chynhwysiant y Plentyn/Person Ifanc.**
- Mae Fframwaith Asesu Risg 2 yn cael ei ystyried yn bwysig yn hybu ac yn atgyfnerthu penderfyniadau proffesiynol e.e. sefydlu trothwy a dadansoddi'r cyswllt rhwng niwed ac effaith, cymhwyso Risg 2 yn ôl-weithredol i adran 47, defnyddio technegau lle mae cydweithwyr yn goruchwylio ei gilydd; nid yw'n gwneud yn lle rôl hyder yn hyn i gyd ond mae'n ategu ac yn cefnogi hynny; croesawu canllawiau e.e. cyn-geni.
- Mae'n hanfodol gwneud yn siŵr bod eich asiantaeth chi ac asiantaethau eraill yn deall ac yn ysgwyddo perchnogaeth – byddai hyfforddiant ar y cyd yn helpu.

- Dogfennau'n cyd-fynd â’i gilydd, a chysondeb rhwng y Gynhadledd Amddiffyn Plant a’r Grŵp Craidd a’i rôl ganolog yn pennu ac yn monitro disgwyliadau o safbwynt Prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol.
- Aildrefnu diwylliannol gyda theuluoedd – anodd yn yr hinsawdd sydd ohoni lle mae cymaint o ansicrwydd
- Pwysigrwydd cynnal momentwm y prosiect
- Mwy a mwy o asesiadau'n cael eu cynnal yn rhithiol – goblygiadau:
    - asesu niwed arwyddocaol gwirioneddol / y tebygolrwydd o niwed arwyddocaol
    - asesiad risg cyn-geni
    - gallu’r rhieni i newid
    - tystiolaeth ychwanegol i sgwario'r dystiolaeth – Proffil Gofal wedi'i Raddio, Cyflwr y Cartref ac ati...

Roedd yn rhwystredig bod effeithiau COVID yn cael effaith ar y gwerthusiad. Ni awgrymwyd unrhyw addasiadau technegol o ran datblygu’r dull; yn bennaf gan fod cymaint o bethau yn y niwl yn y byd amddiffyn plant, yn unigol ac mewn Cynadleddau yn symud i lwyfan rhithiol.

## 1C Mari Ellis Roberts

**Briff:**

Mae Mari Ellis Roberts yn fentor, yn gymhellwr gweithredol, yn hyfforddwr ac yn oruchwyliwr cymell profiadol. Mae hi'n gymwys iawn i werthuso gwaith cymell a mentora yn y prosiect; y dull newydd a elwir yn ‘Fentora Ymarfer’.

Siaradodd Mari ag Arweinydd y Prosiect a chynnal cyfres o gyfweliadau gyda’r Mentor Ymarfer. Pwrpas y cyfweliadau hyn oedd gwerthuso barn y Mentor Ymarfer am y ffordd yr oedd yn gwneud y rôl. Roedd ffocws ar waith 1:1 a sesiynau mentora grŵp.

Disgrifiwyd y Mentor Ymarfer fel ‘arloesol’ ac roedd y mentor yn cael cefnogaeth dda ac yn datblygu sgiliau a gallu. Ni argymhellwyd unrhyw addasiadau technegol i ddatblygu’r dull.

**Canfyddiadau:**

Gellir dadlau fod elfennau cymysg o gymell a mentora yn arddull yr ymarferydd. Er enghraifft, mae’r ymyriad yn ymwneud â thasg benodol (amddiffyn plant) a datblygu sgiliau penodol, sy'n awgrymu bod ‘cymell’ yn digwydd. Ar y llaw arall, mae’r ymyriad yn ymwneud â datblygu gallu a photensial hirdymor, sy'n awgrymu mentora. Beth bynnag fo'r arddull, mae’n cael effaith gadarnhaol ac mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod y broses yn cael ei harwain gan y dysgwr, sy'n bwysig iawn. Mae hyn yn cael ei gyfleu gan yr agenda glir sy'n cael ei gosod gan y dysgwr o’r dechrau.

Rhaid crybwyll y gwaith sy'n cael ei wneud ochr yn ochr â’r prosiect hwn – gwaith sy'n torri tir newydd mewn grwpiau Ymarfer Adlewyrchol ym maes amddiffyn plant. Mae’r Mentor Ymarfer

yn ddi-os wedi cael llawer o fudd o weithio gyda grwpiau ac ymarfer defnyddio rhai o'r teclynnau adlewyrchol fel CLEAR, cyfweld ysgogiadol, a’r arfer o adrodd stori. Dywedodd ei bod wedi sylwi bod pobl yn hoffi’r technegau hyn yn fawr iawn. Mae’r profiadau hyn yn sicr wedi codi hyder y Mentor Ymarfer, ac erbyn hyn mae hi'n awyddus i ddilyn cymhwyster lle gellir integreiddio theori a’r cyfle i ddatblygu sgiliau ymarferol ymhellach.

At ei gilydd, mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod y cynllun wedi datblygu hyder y Mentor Ymarfer i roi cynnig ar bethau newydd. Mae hyn yn ei dro wedi ei galluogi i ddatblygu persona mentor hyderus i gyd-fynd â’i harbenigedd fel uwch weithiwr cymdeithasol. O ganlyniad, mae’r cynllun wedi creu ased da i'w ddefnyddio yn y byd amddiffyn plant, yn y sir yma a thu hwnt. Boed hynny’n fwriadol neu beidio, mae rôl yr Ymarferydd Mentora yn debyg i asiant dros newid. Yn sicr, mae cyfle i ddefnyddio’r math yma o rôl i gael dylanwad pellach a datblygu a rhannu’r cynllun y tu hwnt i ffiniau Cyngor Gwynedd. O ran y cysyniad bod y rôl wedi braenaru’r tir ar gyfer creu cyfleoedd i newid, dywedodd:

“Rydw i ar y rheng flaen gyda’r staff, yn helpu pobl i sefydlu’r hyn sy'n cael ei ddysgu mewn ffordd ymarferol. Un elfen ydy fy rôl fel mentor – mae 'na sawl dylanwad. Mae angen i bobl ymuno a chyfrannu, gwneud amser a gweld gwerth yn y prosiect.”

Yn olaf, gofynnwyd i’r Mentor Ymarfer ddiffinio nodweddion pwysig y rôl. Wrth ystyried y rhain, gallwch ddadlau eu bod hefyd yn adlewyrchu sgiliau allweddol gweithiwr cymdeithasol. Gallai gwaith ar adnabod y rhain gael eu cynnwys mewn pecyn hyfforddi mentoriaid yn y dyfodol gan fod yna elfen bwysig o godi hunanymwybyddiaeth yn hynny.

Nodwyd y canlynol:

- Sgiliau cyfathrebu da
- Hawdd siarad â rhywun
- Hyblygrwydd
- Brwdfrydedd a’r gallu i herio eraill
- Hyder
- Peidio â chymryd pethau'n bersonol e.e. rhywun yn canslo cyfarfod
- Diddordeb mewn pobl a’r gallu i feithrin perthynas

I gloi, dyma enghraifft o brosiect arloesol wedi'i gynllunio'n dda. Mae ganddo rywfaint o strwythur ond eto mae’n ddigon hyblyg i allu esblygu'n naturiol. Yn ogystal, gyda golwg ar greu cyfleoedd mentora ar gyfer ymarferwyr amddiffyn plant, mae gwefan wedi cael ei datblygu sy'n cynnwys adnoddau newydd a buddiol ac arweiniad i ymarferwyr ac asiantaethau amddiffyn plant. Mae’r rhain yn bethau cadarn a phendant y gall ymarferwyr prysur eu defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth.

## Atodiad E

**Fformat y cyfweliad a dalen sgorio**

**Dalen unigol**
**Enw** (dewisol)
**Rôl** **Dyddiad**

**Themâu: Argraffiadau ynghylch beth mae'r prosiect yn ceisio'i wneud yn gyffredinol a sut mae pethau'n mynd**

- **Sgyrsiau cydweithredol**

*Rhowch sgôr ar wahân ar eich cyfer chi a'r mwyafrif o'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw.*
*Mae croeso i chi ychwanegu sylwadau.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 ++ 9 10

- **Asesiadau risg da**

*Rhowch sgôr ar wahân ar eich cyfer chi a'r mwyafrif o'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw.*
*Mae croeso i chi ychwanegu sylwadau.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 ++ 9 10

- **Ffocws ar newid a mesur cynnydd er mwyn deall ymwybyddiaeth a phrofiad y person o'r elfennau hyn**

*Rhowch sgôr ar wahân ar eich cyfer chi a'r mwyafrif o'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw.*
*Mae croeso i chi ychwanegu sylwadau.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 ++ 9 10

- **Dealltwriaeth a phrofiad o ymarfer adlewyrchol a mentora ymarfer**

*Rhowch sgôr ar wahân ar eich cyfer chi a'r mwyafrif o'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw.*
*Mae croeso i chi ychwanegu sylwadau.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 ++ 9 10

- **Eich barn cyffredinol ynghylch beth mae’r prosiect yn ceisio'i gyflawni; a pha mor llwyddiannus ydy o wrth wneud hynny?**
  *Pa mor dda mae’r prosiect wedi perfformio yn erbyn ei darged i wneud ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol?*
  *Sgoriwch hyn ar eich cyfer chi eich hun yn unig*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 ++ 9 10

- **Beth sydd wedi mynd yn dda?**
  Pa gryfderau sydd wedi dod i’r amlwg?
  *I ba raddau mae ymarferwyr yn defnyddio rhywfaint neu’r cyfan o ddulliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu gwaith bob dydd (oes yna gysylltiad rhwng dyheadau rheng flaen a dyheadau’r prosiect?)*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 ++ 9 10

- **Beth sydd wedi bod yn fwy anodd?**
  *Beth ydy’r heriau?*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 ++ 9 10

- **Beth sydd angen digwydd nesaf?**
  *Pa anogaeth sydd yna ar gyfer y dyfodol? (Argymhellion) ar gyfer*
    - *cyfeiriad y prosiect drwyddo draw*
    - *meysydd penodol sydd angen sylw*

*Mae eich atebion yn gyfrinachol ac ni fydd yn datgelu pwy ydych chi*

- *Sgoriau ---1 a –2, ‘ddim yn ddigon da’ ac 8++, yn ddigon da drwy roi ar waith*

## Atodiad F (i) Sylwadau a sgoriau'r cyfweliadau – Gweithwyr Cymdeithasol

**Gweithwyr Cymdeithasol: Arfon a phlant gydag anableddau**

**Themâu'r sgyrsiau**

- **sgyrsiau cydweithredol**

*Mae sgyrsiau'n well a grym yn cael ei rannu.*
*Syniad gwych +++*
*Mae dull o weithio sy'n rhoi pwyslais ar gryfderau yn briodol iawn ac yn gallu gweithio'n dda.*
*Roedd yr hyfforddiant yn dda.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 7 7 8 8 8 +++ 9 10

- **asesiadau risg da**

*Mae gwneud hyn yn syth ar ôl cymhwyso yn ddigon i godi ofn ar rywun.*
*Mae defnyddio canllawiau clir i ddangos tystiolaeth o risg yn eich arwain chi drwy bopeth.*
*Roedd siarad gyda'n gilydd – rhywbeth roedden ni'n ei wneud mewn grŵp wythnosol – pan oedden ni i gyd yn dysgu yn ddefnyddiol.*
*Roedd defnyddio Risg 2 fel trothwy yn rhoi ffocws ar yr adroddiad i gynhadledd.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 7 7 7 8 8 +++ 9 10

- **ffocws ar newid a mesur cynnydd er mwyn deall ymwybyddiaeth y person a phrofiad o'r elfennau hyn**

*Roedd yr hyfforddiant gyda Dafydd Paul yn dda. Roedd newid a'r camau yn gliriach ac yn weledol. Roedd hyn yn help gyda'r teuluoedd a'u perchnogaeth.*
*Roedd ymateb y teuluoedd yn help i ddatblygu perthynas well.*
*Roedd yn haws gydag achosion wedi'u cyfeirio o'r newydd yn hytrach na rhai oedd yn bodoli'n barod.*
*Roedd defnyddio hyn gyda plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth yn gweithio'n dda. Roedd y camau tuag at newid yn gweithio.*
*Roedd yn teimlo fel bod mwy o sefydlogrwydd a hunan-barch.*
*Gallai ei ddefnyddio mewn grwpiau craidd fod yn broblem. Anodd ar-lein, ac yn well mae'n siŵr yn yr un ystafell.*
*Roedd dealltwriaeth a dulliau ysgolion ac ymwelwyr iechyd yn anghyson.*
*Roedd eglurder o ran newidiadau yn gadarnhaol ond roedd y gwaith papur yn gwneud pethau'n anodd.*

*Roedd camau tuag at newid yn gweithio'n dda gyda'r fam ond ddim gyda'r tad, oedd ddim eisiau bod yn rhan o'r peth. Roedd hyn yn glir, dyma nhw'n gwahanu, a dyma'r llys yn cadarnhau hyn drwy roi ICO heb ddim cyswllt.*
*Roedd y gwaith papur yn y cynadleddau ac yn yr adolygiad plant sy'n derbyn gofal yn glir ac yn fuddiol ond roedd dipyn o waith cofnodi.*
*Dydy o ddim yn cael ei ddefnyddio rhyw lawer gyda'n teuluoedd ni, ond roedd gwybod pa newidiadau oedd eu hangen o safbwynt Amddiffyn Plant yn gwneud y problemau rhwng y rhieni yn eglur.*
*Roedd yn ddefnyddiol iawn defnyddio'r teclyn Cyflwr y Cartref i atgyfnerthu'r newidiadau oedd eu hangen. Mi wnaeth y fam gadw at y newidiadau yma.*
*Roedd yn help mawr gyda'r ffocws ar y canlyniad a'r newid oedd angen digwydd.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 6 7 7 7 8 +++ 9 10

- **eu dealltwriaeth a'u profiad o ymarfer adlewyrchol a mentora ymarfer.**

*Roedd mentora gyda Sue Adams yn amhrisiadwy. Fe wnaeth fy helpu i weld safbwynt y teulu, a'i barchu.*
*Atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd am Amddiffyn Plant yn Effeithiol*
*Dwi'n gobeithio y bydd yn parhau. O'i gymharu ag awdurdodau eraill, mae'n helpu go iawn.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 6 7 7 7 8 +++ 9 10

Cyffredinol

- **Eu barn ynghylch beth mae'r prosiect yn ceisio'i gyflawni; a pha mor llwyddiannus ydy o wrth wneud hynny?**
  ***Pa mor dda mae'r prosiect wedi perfformio yn erbyn ei darged i wneud ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol?***

*Mae'r model yn gwneud i mi deimlo'n fwy proffesiynol a bod gen i fwy o allu i ddatblygu fy sgiliau.*
*Roedd cynadleddau'n fyrrach gyda mwy o ffocws ynddyn nhw.*
*Mewn tîm aml-asiantaethol, roedd yna broblemau o ran sut oedd gweithwyr asiantaethau eraill yn ymwneud â'r model.*
*Maen nhw'n mynd i gyfarfod ac yn rhoi eu hadroddiad ond dydyn nhw ddim yn meddwl ei fod yn rhan o'u gwaith nhw i ddeall Amddiffyn Plant yn Effeithiol na'i ddefnyddio.*
*Roedd yr un peth i weld yn wir am staff iechyd ac addysg.*
*Mae adnabod Niwed Arwyddocaol yn bwysig i staff gwaith cymdeithasol, yn ogystal â'r gallu i'w egluro i deuluoedd ac asiantaethau eraill.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 7 7 7 8 8 +++ 9 10

- Beth sydd wedi mynd yn dda?

Pa gryfderau sydd wedi dod i'r amlwg?
*I ba raddau mae ymarferwyr yn defnyddio rhywfaint neu'r cyfan o ddulliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu gwaith bob dydd (oes yna gysylltiad rhwng dyheadau rheng flaen a dyheadau'r prosiect?)*

*Positif iawn yn y newid o fod yn y Brifysgol i fynd allan i ymarfer yn y byd go iawn.*
*Mae cydweithio pan 'da chi newydd gymhwyso yn help mawr.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 6 7 7 7 7 8 +++ 9 10

- Beth sydd wedi bod yn fwy anodd?
  *Beth ydy'r heriau?*

*Gwaith cofnodi ychwanegol*
*Cyfraniadau asiantaethau eraill*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- Beth sydd angen digwydd nesaf?
  *Pa anogaeth sydd yna ar gyfer y dyfodol? (argymhellion) ar gyfer*
    - *cyfeiriad y prosiect drwyddo draw*
    - *meysydd penodol sydd angen sylw*

Cadw nifer y llwythi achosion yn isel wrth ddechrau gweithio a pharhau a'r mentora.
Dal ati i fentora.
Parhau i hyfforddi.

- Beth fydd effaith debygol yr achosion diweddar o farwolaethau plant, sydd wedi cael llawer o sylw? Beth fydd effaith hyn ar amddiffyn plant a beth ydy rôl Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn yr heriau mae'r sector yn eu hwynebu yn y dyfodol.

*Ddim yn berthnasol iddyn nhw*

## Atodiad F (ii) Sylwadau a sgoriau'r cyfweliadau – 3 Rheolwr Tîm

**Themâu**

- **sgyrsiau cydweithredol**

*Mae'n mynd yn dda ond mae'n fwy anodd magu hyder gyda theuluoedd tymor hir e.e. ail genhedlaeth*
*Pan mae'n cael ei ddefnyddio'n briodol mae'n gweithio'n dda gyda phobl ifanc sy'n rhieni neu'n ofalwyr*
*Mae'n gallu bod yn anodd ei ddefnyddio ac mae angen i'r gweithiwr fod yn drefnus iawn a pharatoi*
*Ddim wastad yn digwydd ond yn gweithio'n dda pan mae o yn digwydd*
*Mae angen ei ddefnyddio mewn grwpiau craidd, ond mae hyn yn cymryd amser*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 9 10

- **asesiadau risg da**

*Llafar yn hytrach nag ysgrifenedig. Wedi'i integreiddio mewn ymarfer. Y crynodeb ddim yn cael ei gwblhau fel arfer. Mae'n gallu cael ei weld fel rhywbeth i'w wneud ar ôl adroddiad y gweithiwr cymdeithasol i gynhadledd.*
*Mae'n gallu bod yn bositif iawn i gefnogi sgôr Amddiffyn Plant yn Effeithiol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle mae cynnydd yn mynd i fyny a lawr.*
*Defnyddio proses sgrinio Risg 1.*
*Mae'n fuddiol egluro pam mae person ifanc yn wynebu risg ddifrifol a beth sydd angen ei wneud i leihau risg*
*Mae datblygu teclyn ecsbloetio gyda Dafydd Paul yn ddefnyddiol.*
*Gyda staff profiadol, mae'n cael ei integreiddio. Mae'n gyflym ac yn helpu i roi ffocws.*
*Byddai'r rhestr Wirio Niwed Arwyddocaol yn gallu cael ei defnyddio'n amlach.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 7 7 8 8 +++ 9 10

- **ffocws ar newid a mesur cynnydd er mwyn deall ymwybyddiaeth y person a phrofiad o'r elfennau hyn**

*Os nad oes newid, mae hynny'n amlwg, ac mae'n hawdd gweithio gyda hynny.*
*Os oes 'na newid yn digwydd, mae'n rymusol i'r teuluoedd ac i'r gweithwyr.*
*Cyferbyniad rhwng teuluoedd 'profiadol' sydd wedi ymwneud â ni o'r blaen a theuluoedd 'newydd'*
*Wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol gyda'r Tîm Trothwy gyda pherson ifanc sy'n ofalwr*
*Gallu staff mewn tîm sydd wedi setlo i aros gyda'r person ifanc. Mae Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn helpu ac yn cynnal cysylltiadau. Maen nhw'n caotig iawn ac yn rhoi eu hunain mewn sefyllfaoedd peryglus.*

*Positif iawn gyda rhai o'r bobl ifanc, ond mae'n gallu bod yn grŵp anodd*
*Mae'r manylion yn gallu bod yn broblem weithiau ond mae'r ffocws ar faterion 3 i 5 yn dda.*
*Mae grwpiau craidd yn cymryd mwy o amser achos dydy staff asiantaethau eraill ddim bob amser yn deall y model*
*Gall fod yn anodd egluro i'r sector addysg sut mae'n cael ei ddefnyddio, yn enwedig mewn achosion o wahardd o'r ysgol am gyfnod.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 teulu 7 7 tîm 8 +++ 9 10

- **eu dealltwriaeth a'u profiad o ymarfer adlewyrchol a mentora ymarfer**

*Mentora'n fuddiol iawn*
*Mentora ar gyfer rheolwyr tîm yn rhywbeth i'w groesawu*
*Dydy o ddim yn tarfu ar rôl oruchwyliol y Rheolwr Tîm Mae rôl pawb yn glir.*
*Roedd Wendy Roberts yn hanfodol fel dolen gymorth*
*Mae Sue Adams yn helpu gyda gwahanol ffyrdd gweledol o ymgysylltu â phobl ifanc*
*Mae morâl rheolwyr tîm yn isel ac mae'r rôl mentora'n gallu bod yn gymhleth, yn enwedig os ydy'r rheolwr yn brysur iawn. Dydy cydweithwyr yn mentora ei gilydd ddim mor fuddiol os nad oes gan y mentor brofiad o Amddiffyn Plant.*
*Os oes gan y tîm nifer o staff profiadol, byddai'n fwy defnyddiol cael cymorth ychwanegol ar gyfer y rheolwr tîm gan rywun gyda gwahanol rôl e.e. cymell neu uwch ymarferydd neu arweinydd ymarfer arall. Fodd bynnag, mae wedi cyfrannu'n gadarnhaol.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 Tîm 7 8 +++ 9 Rheolwr 10

Cyffredinol

- **Eu barn ynghylch beth mae'r prosiect yn ceisio'i gyflawni; a pha mor llwyddiannus ydy o wrth wneud hynny?**
  ***Pa mor dda mae'r prosiect wedi perfformio yn erbyn ei darged i wneud ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol?***

*Da oherwydd y strwythurau, y mentora a'r mewnbwn*
*Mae'n cael ei ddeall fel dull ond ddim bob amser yn cael ei integreiddio mewn ymarfer oherwydd y grŵp cleientiaid*
*Mae staff wedi derbyn yr egwyddorion*
*Mae'r niferoedd sydd wedi bod yn yr hyfforddiant wedi bod yn dda, ac mae hynny wedi helpu.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 7 8 +++ 9 10

- **Beth sydd wedi mynd yn dda?**
  **Pa gryfderau sydd wedi dod i'r amlwg?**

***I ba raddau mae ymarferwyr yn defnyddio rhywfaint neu'r cyfan o ddulliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu gwaith bob dydd (oes yna gysylltiad rhwng dyheadau rheng flaen a dyheadau'r prosiect?)***

*Dirnad a deall Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn dda iawn*
*Mae fframwaith ar gyfer staff yn gwella hyder ++*
*Pobl ifanc yn rhan o gynlluniau. E.e. haws deall cyfnodau o adael cartref a chynnydd yn cael ei wneud*
*Roedd person ifanc eisiau dod adref ac fe wnaeth fframwaith Amddiffyn Plant yn Effeithiol ar gyfer newid a mesur helpu i wneud hyn.*
*Hwylus iawn — Sgyrsiau cydweithredol*
*Hawdd cael gafael yn Dafydd Paul a chefnogaeth barhaus*
*Hyfforddiant atgoffa*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- **Beth sydd wedi bod yn fwy anodd?**
  ***Beth ydy'r heriau?***

*Problemau staffio.*
*Ddim wedi cyrraedd yr un lefel â'r tîm oedd yn cychwyn Amddiffyn Plant yn Effeithiol ddwy flynedd yn ôl, ond mae'n dda bod yn y tranche yma.*
*Mae'n anodd newid ymddygiad teuluoedd sydd wedi bod yn rhan o'r system ers tro.*
*Asiantaethau eraill ddim wastad yn deall y system yn iawn ac am drwsio bob dim.*
*Mae'r ffocws yn rhy eang*
*Mae grwpiau craidd yn broblem o hyd. Mae cadeirio a chymryd cofnodion yn cael eu gweld fel tasg i'r gweithiwr cymdeithasol.*
*Y rheolwr tîm yn mynd i grwpiau craidd er mwyn helpu gweithwyr newydd*
*Staff yn gadael a staff newydd yn cyrraedd. Mae'n cymryd amser, ymdrech a dyfalbarhad i roi unrhyw system newydd ar waith a'i sefydlu.*
*Mae uchelgais a brwdfrydedd gweithwyr newydd yn ddefnyddiol ond mae angen mwy o amser a chefnogaeth, sy'n anodd.*
*Mae gwaith rhwng asiantaethau'n arafach oherwydd bod angen egluro pethau.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- **Beth sydd angen digwydd nesaf?**
  ***Pa anogaeth sydd yna ar gyfer y dyfodol? (argymhellion) ar gyfer***
  - ***cyfeiriad y prosiect drwyddo draw***
  - ***meysydd penodol sydd angen sylw***

*Atgyfnerthu'r broses o roi popeth ar waith. Bydd cael mynediad at fideos yn ddefnyddiol.*
*Rhoi mewnbwn i asiantaethau eraill. Asiantaethau eraill yn sgorio'u hadroddiadau.*
*Mentora. Mae'n debyg na fyddai pethau'n symud rhyw lawer heb hyn.*

Dal ati i gefnogi ac atgyfnerthu.
Cynnwys cynghorwyr personol a'u hyfforddi.
Uwch Reolwyr i wrando a gwneud rhywbeth am y problemau staffio.

- Beth fydd effaith debygol yr achosion diweddar o farwolaethau plant, sydd wedi cael llawer o sylw? Beth fydd effaith hyn ar amddiffyn plant a beth ydy rôl Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn yr heriau mae'r sector yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Newydd gymhwyso, ddim yn broblem – ddim yn gwybod be 'di'r broblem
Agweddau rhieni at staff e.e. ymosodol tuag at staff
Y gweithwyr yn flin am adroddiadau ar y newyddion a'r diwylliant o weld bai yn y cyfryngau

## Atodiad F (iii) Sylwadau a sgoriau'r cyfweliadau – Swyddog Cyswllt yr Heddlu

**Themâu'r sgyrsiau**

- sgyrsiau cydweithredol

*Amherthnasol*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- asesiadau risg da

*Mae trothwyon yn glir ac yn cael eu defnyddio'n briodol*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- ffocws ar newid a mesur cynnydd er mwyn deall ymwybyddiaeth y person a phrofiad o'r elfennau hyn

*Mae Camau tuag at Newid yn cael eu gwneud yn dda iawn mewn cynadleddau – er mai ar-lein maen nhw*
*Mae eglurder ynglŷn â 'beth sydd angen newid' ymysg teuluoedd.*
*Mae'n amlwg bod mwy o ffocws*
*Mwy effeithlon*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- eu dealltwriaeth a’u profiad o ymarfer adlewyrchol a mentora ymarfer

*Amherthnasol*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

Cyffredinol

- Eu barn ynghylch beth mae’r prosiect yn ceisio'i gyflawni; a pha mor llwyddiannus ydy o wrth wneud hynny?
  *Pa mor dda mae’r prosiect wedi perfformio yn erbyn ei darged i wneud ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol?*

*Cymharu ag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru – Mae ganddyn nhw ormod o wybodaeth, dim digon o ffocws*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- Beth sydd wedi mynd yn dda?
  Pa gryfderau sydd wedi dod i’r amlwg?
  *I ba raddau mae ymarferwyr yn defnyddio rhywfaint neu’r cyfan o ddulliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu gwaith bob dydd (oes yna gysylltiad rhwng dyheadau rheng flaen a dyheadau’r prosiect?)*

  *Amherthnasol*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- Beth sydd wedi bod yn fwy anodd?
  *Beth ydy’r heriau?*

*Mae newid mewn gweithwyr yn arwain at ddiffyg cysondeb ac ymddiriedaeth*
*Asiantaethau eraill e.e. Iechyd ac Addysg ddim yn barod weithiau i fod yn onest/beirniadol*
*Camddefnyddio sylweddau + Iechyd Meddwl/CPN ++ ond weithiau'n amddiffynnol*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- Beth sydd angen digwydd nesaf?
  *Pa anogaeth sydd yna ar gyfer y dyfodol? (argymhellion) ar gyfer*

- *cyfeiriad y prosiect drwyddo draw*
- *meysydd penodol sydd angen sylw*

*Symleiddio adroddiadau'r heddlu*
*Crynhoi adroddiadau'r heddlu fel bod ffocws ar newid*

- Beth fydd effaith debygol yr achosion diweddar o farwolaethau plant, sydd wedi cael llawer o sylw? Beth fydd effaith hyn ar amddiffyn plant a beth ydy rôl Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn yr heriau mae'r sector yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Unrhyw sylwadau eraill?

*Mae pawb yn meddwl bod cyfarfodydd ar-lein yn effeithlon yn hierarchaeth yr heddlu, ond er bod hyn yn arbed amser, dydy o ddim mor effeithiol pan mae'n fater o asesiadau a chanlyniadau.*

*Trafodaethau parhaus mewn cyfarfod wythnosol o swyddogion yr heddlu sy'n gwneud yr un rôl.*

*Diddordeb gan swyddogion eraill yn system Amddiffyn Plant yn Effeithiol.*

## Atodiad F (iv) Sylwadau a sgoriau'r cyfweliadau – Mentor a Chadeirydd sydd wedi ymddeol

**Themâu**

- sgyrsiau cydweithredol

*Mae defnydd o'r hunan, hunan-ddeall a hunan-ymwybyddiaeth wedi bod yn datblygu; ac felly hefyd y gallu i adlewyrchu*
*Mae'n derbyn teulu am bwy ydyn nhw ac yn rhoi'r hyder iddyn nhw agor allan.*
*Mae angen dyfalbarhad gyda'r teulu.*
*Mae llawer o sgiliau perthynas yn amlwg, hyd yn oed mewn amgylchiadau anodd.*
*Mae rhywun yn dod yn gymwys yn y dulliau heb sylweddoli bron.*
*Problemau parhaus mewn rhai grwpiau craidd o ran cysylltiad a dealltwriaeth asiantaethau eraill.*
*Y disgwyliad bod y gweithiwr cymdeithasol yn cofnodi yn y cyfarfod ac yn ei gadeirio.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- asesiadau risg da

*Mae'n elfen hanfodol, sy'n amlwg mewn cynadleddau.*

*Y disgwyliad y bydd yn cael ei wneud ond mae angen monitro i sicrhau safonau uchel.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- ffocws ar newid a mesur cynnydd er mwyn deall ymwybyddiaeth y person a phrofiad o'r elfennau hyn

*Gall fod yn hawdd i deuluoedd deimlo'u bod yn cael eu llethu, a gall fod yn anodd eu cael i ymgysylltu â'r broses newid*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- eu dealltwriaeth a'u profiad o ymarfer adlewyrchol a mentora ymarfer

*Gwahanol yn dibynnu ar ydy'r gweithiwr yn newydd ynteu'n brofiadol, ac ym mha faes mae'n gweithio. Mae Arfon a Dwyfor a Meirionnydd yn wahanol er enghraifft.*
*Mae'n gam mawr mynd o'r cwrs gwaith cymdeithasol i ymarfer, ac mae mentora'n helpu yn hynny o beth.*
*Mae hyder yn gallu bod yn isel ac mae 'na lawer i'w ddysgu, sy'n fwy anodd os ydych chi'n gweithio o gartref.*
*Rhai problemau o ran sut i ymgysylltu â theuluoedd, yn enwedig y rhai sydd ddim mor barod i dderbyn.*
*Mewn rhai timau, mae 'na broblem rhwng mentora a goruchwylio, ond dydy hynny ddim yn digwydd mewn timau eraill. Mae hyn yn gwella, gyda Rheolwyr Tîm yn dechrau gofyn am help i wneud cynnydd.*
*Fodd bynnag, mae mentora'n gweithio, mae wedi cael ei sefydlu, ac mae'n helpu gydag arbrofi, datblygu sgiliau ac ennill profiad.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

Cyffredinol

- Eu barn ynghylch beth mae'r prosiect yn ceisio'i gyflawni; a pha mor llwyddiannus ydy o wrth wneud hynny?
  *Pa mor dda mae'r prosiect wedi perfformio yn erbyn ei darged i wneud ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol?*

  *Dechreuodd pethau'n dda iawn yn yr ardaloedd peilot, gyda'r rheolwyr tîm, y mentoriaid a chadeiryddion cynadleddau'n gwbl ymrwymedig i wneud i hyn weithio.*
  *Roedd y strwythur a'r prosesau yn eu lle a daeth Dafydd Paul â'r cyfan at ei gilydd.*
  *Yn amlwg, arafodd Covid bopeth a dod â phroblemau penodol eraill yn ei sgil.*
  *Roedd cynadleddau ar-lein yn anodd, a gwaith asesu a dadansoddi. Roedd cynadleddau ar-lein yn anodd, a gwaith asesu a dadansoddi.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- Beth sydd wedi mynd yn dda?
  Pa gryfderau sydd wedi dod i'r amlwg?
  *I ba raddau mae ymarferwyr yn defnyddio rhywfaint neu'r cyfan o ddulliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu gwaith bob dydd (oes yna gysylltiad rhwng dyheadau rheng flaen a dyheadau'r prosiect?)*

*Datblygu deunyddiau hyfforddi*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- Beth sydd wedi bod yn fwy anodd?
  *Beth ydy'r heriau?*

*Mae Covid wedi amharu ar bethau, a phroblemau staffio hefyd*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- Beth sydd angen digwydd nesaf?
  *Pa anogaeth sydd yna ar gyfer y dyfodol? (argymhellion) ar gyfer*
    - *cyfeiriad y prosiect drwyddo draw*
    - *meysydd penodol sydd angen sylw*

*Cadarnhau anghenion datblygu rheolwyr tîm o ran cysylltu Amddiffyn Plant yn Effeithiol â goruchwyliaeth a mentora*

## Atodiad F (v) **Sylwadau a sgoriau'r cyfweliadau – 3 Cadeirydd Cynadleddau**

**Themâu**

- **sgyrsiau cydweithredol**

*Mae rhieni'n adlewyrchu hyn mewn cynadleddau. Maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu parchu.*
*Roedd sgyrsiau'n cael eu cynnal cyn y gynhadledd os nad oeddent yn mynd i fod yno.*
*Roedd y ffordd yr oedd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn dda.*
*Wedi dilyn yr hyfforddiant. Profiad da fel gweithiwr cymdeithasol ac uwch weithiwr cymdeithasol. Ymarfer da mewn rhai grwpiau craidd e.e. asesiad seicolegol a'r Nyrs Seiciatrig Gymunedol Iechyd Meddwl yn cymryd rhan mewn trafodaethau agored a gonest.*
*Pethau'n gymhleth mewn amgylchedd gwahanol, sy'n broblem.*
*Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol ac mae'n cael ei integreiddio i arferion gwaith heb i weithwyr ddeall. Cymhwysedd heb sylweddoli. Mae profiad yn helpu.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 6 7 7 7 8 +++ 9 10

- **asesiadau risg da**

*Mae'r goreuon yn glir gyda chyfeiriadau, ond mae bron bob un wedi cael ei gwblhau os oes llai o dystiolaeth o fod yn glir. Eithriadau weithiau ond mae'r cadeirydd yn sylwi arnyn nhw ac yn gwneud cais iddyn nhw gael eu gwneud*
*Mae'n galluogi cynadleddau i ganolbwyntio ar newid drwy sefydlu trothwy yn fuan.*
*Risg 2 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhywfaint o ddadgofrestru*
*Defnydd o R2 yn gymysg. Niwed Arwyddocaol yn cael ei ddefnyddio fel cysyniad. Mae Dwyfor a Meirionnydd yn eu defnyddio fel trothwy cyson. **
*Ddim yn cael y crynodeb ar ddiwedd Risg 2 ond mae'n cael ei wneud.*
*Mae Niwed Arwyddocaol yn ddefnyddiol iawn ac yn cael ei ddefnyddio'n gynnar mewn cynadleddau, gan roi cyfle i newidiadau angenrheidiol gael eu trafod. Mae'n help rhag crwydro oddi wrth y testun.*
*Roedd Dwyfor a Meirionnydd yn defnyddio hwn yn dda*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- **ffocws ar newid a mesur cynnydd er mwyn deall ymwybyddiaeth y person a phrofiad o'r elfennau hyn**

*Rhaglenni ar gyfer galluogi newid ddim ar gael yn ystod covid ond dydy hyn ddim yn ei atal rhag digwydd.*
*Mwy o esboniadau ar gael ynghylch pam nad ydy newid yn digwydd.*
*Dydy presenoldeb mewn rhaglen ddim yn golygu canlyniad da.*
*Mae angen edrych ar gynhadledd fel proses yn hytrach na digwyddiad.*

*Roedd blinder mewn cynadleddau yn broblem, ond dydy hynny ddim yn digwydd cymaint rŵan.*
*Grwpiau craidd ddim yn gweithio mor dda gyda rhai asiantaethau. E.e. Iechyd Meddwl*
*Os ydy grwpiau craidd yn gweithio'n dda, mae adroddiadau'n cynnwys argymhellion sy'n dilysu prosiect.*
*Gwahanol ardaloedd. Mae'r De a'r Gogledd yn wahanol ond mae'r bwlch yn mynd yn llai*
*+ Eglurder, Targedau, Mesuriadau ++*
*Ddim wastad yn cael datganiadau clir heb jargon.*
*Mae pobl yn deall newid, ond dydy o ddim bob amser yn cael ei ysgrifennu'n dda a gall fod yn or-gymhleth.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 7 8 +++ 9 10

- **eu dealltwriaeth a'u profiad o ymarfer adlewyrchol a mentora ymarfer**

*Mae'n bwysig iawn ei fod ar gael fel rhywbeth ychwanegol i gymorth gan gydweithwyr a goruchwyliaeth*
*Roedd y gallu i gael gafael ar Wendy yn golygu y gallai pethau newid yn gyflym e.e. dogfennau ac addasu templedi.*
*Roedd yn effeithiol ac yn fuddiol iawn ond dydy pethau ddim cystal ers i Wendy fynd.*
*Angen gwneud gwaith i adfer, gobeithio drwy hyfforddiant wedi'i drefnu gan Gadeiryddion Cynhadledd, a phenodiad newydd*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

**Cyffredinol**

- Eu barn ynghylch beth mae'r prosiect yn ceisio'i gyflawni; a pha mor llwyddiannus ydy o wrth wneud hynny?
  *Pa mor dda mae'r prosiect wedi perfformio yn erbyn ei darged i wneud ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol?*

*Targedau clir iawn sy'n bosib eu cyflawni*
*Tystiolaeth o gyfraniad pobl ifanc.*
*Mae pethau'n siapio.*
*Mae aelodau iau o staff yn fwy hyblyg*
*Mewn timau lle mae'n anghyfarwydd, mae'r cadeirydd yn cymryd yr awenau ac yn helpu staff i weld beth ydy'r broblem e.e. hwyluso dechrau'r gynhadledd a chamau tuag at newid ac ati*
*Mae hyn yn gallu bod yn siomedig os nad ydy'r cynadleddau adolygol yn bwrw ymlaen â phethau ac yn mynd â nhw i'r pen.*
*Cynadleddau awr o hyd ydy'r norm erbyn hyn, yn hytrach na'r rhai hirfaith roedden ni'n eu cael ers talwm.*
*Mae'n lleihau mân siarad ac yn rhoi ffocws ar y peth pwysig. Mae'n gryno ac yn dadansoddi'r sefyllfa.*
*Mae iaith ffurflenni'n cael ei derbyn a'i defnyddio.*

*Mae'r prosiect yn gwneud yn well na beth mae Dafydd yn ei feddwl!*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 8 +++ 9 10

- **Beth sydd wedi mynd yn dda?**
  **Pa gryfderau sydd wedi dod i'r amlwg?**
  ***I ba raddau mae ymarferwyr yn defnyddio rhywfaint neu'r cyfan o ddulliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu gwaith bob dydd (oes yna gysylltiad rhwng dyheadau rheng flaen a dyheadau'r prosiect?)***

*Dogfennau i gynhadledd +*
*Dim byd newydd yn codi i ddychryn y teulu.*
*Mae newid yn digwydd*
*Mae Lucy Owen yn rhoi cysondeb pan mae hi ar gael*
*Mesur canlyniadau o ran nifer ar y gofrestr.*
*Uwch yn 2020 ond yn is erbyn hyn.*
*O ran plant sydd wedi'u hailgofrestru, ddim yn gwybod eto*
*Y Tîm Trothwy ++ yn benodol os ydy'r teulu'n dal ati i weithio gyda nhw*
*Canlyniadau data ar ôl cynhadledd*
*Polisi ar gyfer cynadleddau rhithiol *** Data ar ôl cynhadledd ****
*Datblygu profiad staff yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a staff asiantaethau eraill*
*Mae pethau'n siapio.*
*Mae aelodau ifanc newydd o staff yn well*
*Mewn timau lle mae'n anghyfarwydd, mae'r cadeirydd yn cymryd yr awenau ac yn helpu staff i weld beth ydy'r broblem e.e. hwyluso dechrau'r gynhadledd a chamau tuag at newid ac ati*
*Mae hyn yn gallu bod yn siomedig os nad ydy'r cynadleddau adolygol yn bwrw ymlaen â phethau ac yn mynd â nhw i'r pen*
*Cynadleddau 1 awr ydy'r norm*
*Bydd gweithgor o gadeiryddion cynadleddau a Dafydd yn datblygu hyn ymhellach.*
*Mae Swyddog Cyswllt yr Heddlu, 'Lucy Owen', yn help mawr, mae'n ychwanegu cysondeb ac yn ddefnyddiol fel rhywun annibynnol i sylwi ar bethau.*
*Grŵp cydlynol a chadarnhaol o gadeiryddion a Dafydd.*
*Roedd 'Teams' yn ein galluogi i gael ffocws ond doedd o ddim mor ddefnyddiol â chyswllt wyneb yn wyneb.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 7 8 +++ 9 10

- **Beth sydd wedi bod yn fwy anodd?**
  ***Beth ydy'r heriau?***

*Cyfarfodydd rhithiol, ond mae 'na elfennau positif i hynny.*
*Gweithwyr yn teimlo'n ynysig gyda llai o fynediad at gymorth/cyngor a llai o botensial ar gyfer adlewyrchu.*

*Gall fod yn anodd rheoli gwrthdaro o fewn teuluoedd. E.e. aelodau gwahanol o’r teulu mewn ystafell wahanol neu'n dadlau yn yr un ystafell.*
*Cynllunio ac adolygu mewn timau unigol*
*Defnyddio mewn asiantaethau eraill e.e. addysg*
*Monitro defnydd mewn grwpiau craidd ac adolygiadau*
*Hyfforddiant mewn asiantaethau eraill*
*Torri’r camau i lawr eto mewn grwpiau craidd?*
*Roedd hi'n anodd canolbwyntio ar ddiwedd y cynadleddau, ond gan mai dim ond awr maen nhw’n bara bellach, dydy hyn ddim yn broblem ddim mwy. Mae asiantaethau eraill yn dal i fyny'n raddol.*
*Camau tuag at newid yn cael ei ddefnyddio fel teclyn yn hytrach nag adlewyrchu ar beth sy'n newid go iawn*

--- 1 2-- 3 4 5 5 5 6 7 8 +++ 9 10

- **Beth sydd angen digwydd nesaf?**
  ***Pa anogaeth sydd yna ar gyfer y dyfodol? (argymhellion) ar gyfer***
  - ***cyfeiriad y prosiect drwyddo draw***
  - ***meysydd penodol sydd angen sylw***

  *Cymorth parhaus i gynnal momentwm*
  *Sesiynau hyfforddiant atgyfnerthu ar wahân i wasanaethau Pobl Hŷn*
  *Hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mentora ac ymarfer adlewyrchol.*
  *Dal ati i annog y gweithlu presennol a chynnig cymorth i’r nifer uchel o weithwyr newydd.*
  *Gweithio ar effeithiolrwydd grwpiau craidd*

- Beth fydd effaith debygol yr achosion diweddar o farwolaethau plant, sydd wedi cael llawer o sylw? Beth fydd effaith hyn ar amddiffyn plant a beth ydy rôl Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn yr heriau mae’r sector yn eu hwynebu yn y dyfodol.

*Mwy o ffocws ar lais y plentyn*
*Dwi'n falch fy mod i yng Ngwynedd. Dwi'n teimlo'n ddiogel. Mae gan y llysoedd barch at Wynedd. Ystyried dadgofrestru ar ôl 6 mis. Angen gwneud yn siŵr bod cofnodion yn cael eu gwneud yn dda ac yn cael eu diweddaru. A’u bod nhw’n fwy dadansoddol a chryno.*

Unrhyw sylwadau eraill?

*Mae’r ymrwymiad i'r gwaith ac i’r prosiect wedi cael dipyn o argraff arna i*

*Braint amser i’r cadeiryddion*

## Atodiad F (v) **Sylwadau a sgoriau'r cyfweliadau – 2 Reolwr Gwasanaeth a Rheolwr y Prosiect**

**Themâu**

- **sgyrsiau cydweithredol**

*Mae cydweithio'n wahanol gyda theuluoedd Amddiffyn Plant*
*Beth sy'n gorfod digwydd gyda theuluoedd amddiffyn plant ond ddim gyda Gofal a Chymorth?*
*Mae angen i lefel y cyswllt gael ei hystyried*
*Mae cynnydd da wedi cael ei adrodd gyda rhai teuluoedd*
*Mae eglurder o safbwynt canlyniadau wedi gwella ++*
*Dylid ystyried cyflwyno Amddiffyn Plant yn Effeithiol mewn prosesau PLO.*
*Gellir yn sicr weld dylanwad Amddiffyn Plant yn Effeithiol yng ngwaith goruchwylio'r rheolwyr tîm*

--- 1 2-- 3 4 5 6 77 8 +++ 9 10

- **asesiadau risg da**

*Mae pob cynhadledd Amddiffyn Plant yn dechrau drwy edrych yn ofalus ar drothwy.*
*Mae hyn yn cael ei brofi a'i adrodd yn y data sy'n dod yn ôl gan gadeiryddion y cynadleddau*
*Byddai'n bosib gwneud gwell defnydd o grid Risg 2*
*Mae angen cadw'r safon yn uchel. Mae tuedd anorfod i bethau ddirywio.*
*Mae angen cywirdeb a manyldeb.*
*Trothwy, rheswm dros y penderfyniad. Mae data'n cael ei gasglu ar ffurflenni.*
*Mae llwybrau byr yn cael eu cymryd er mwyn gwneud y dadansoddiad*
*Mae angen i Reolwyr Tîm fynnu eu bod yn cael sylfaen dystiolaeth ar gyfer y datganiadau hyn*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- **ffocws ar newid a mesur cynnydd er mwyn deall ymwybyddiaeth y person a phrofiad o'r elfennau hyn**

*Mesur cynnydd – angen cynnydd/gostyngiad o'r llinell sylfaen ym mhob cynhadledd fel bod popeth yn cael ei adeiladu i mewn i'r system*

*Proses ydy camau tuag at newid. Nid mesur camau unigol ydy'r prif beth. Yn hytrach, mae'n ymwneud â chynllunio a siarad am newid y mae tystiolaeth o gynadleddau'n dangos ei fod yn digwydd. Mae symud o adnoddau gweledol i siarad am newid, sy'n gysylltiedig â chyfweld ysgogiadol, yn dangos bod mwy o sgyrsiau sy'n rhoi pwyslais ar newid yn digwydd. Defnyddio camau i fesur cynnydd. Mae tystiolaeth o gynadleddau'n dangos bod hyn yn digwydd. Mae staff i fod i ystyried sut mae ysgwyddo perchnogaeth dros y camau a defnyddio geiriau'r teuluoedd. Mae siarad am newid yn rhan o hyn.*
*Mae hefyd yn ddefnyddiol mewn pecynnau gofal a chymorth*

--- 1 2-- 3 4 5 6 Gweithredu 7 8 +++ Dealltwriaeth 9 10

- **eu dealltwriaeth a'u profiad o ymarfer adlewyrchol a mentora ymarfer**

*Trefnus pan oedd Wendy yno. Roedd pawb yn cael sesiynau 1:1 neu sesiynau grŵp. Roedd angen 3 sesiwn.*
*Perthynas – dolen adborth.*
*Mae angen i gyfraniad y rheolwr tîm gael ei ddatblygu'n briodol*
*Mae angen datblygu'r diwylliant mentora timau.*
*Rhoi strategaethau mentora tîm ar waith*
*Dealltwriaeth yn dda. Ddim mor dda am roi ar waith.*
*Mae newid mewn diwylliant yn gadarnhaol*
*Mae mentora ymarfer yn rhan o'r drefn arferol ond mae angen atgyfnerthu a datblygu a gwneud cysylltiadau er mwyn rhoi gwybodaeth i Reolwyr Tîm a'u cynnwys.*
*Mae Ymarfer Adlewyrchol yn arloesol ac yn uchelgeisiol ac mae'n newid hanfodol yn y ffordd mae gweithwyr cymdeithasol yn ymgysylltu â theuluoedd.*
*Mae Siobahn MacClean a Wendy yn datblygu ac yn cynhyrchu pob math o ddeunyddiau ar sail profiadau'r ddwy a'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yng Ngwynedd e.e. llyfr i ymarferwyr yn ymwneud â Fframweithiau ar gyfer Ymarfer i Unigolion, Cydweithwyr, Grwpiau a Rheolwyr Tîm.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

Cyffredinol

- **Eu barn ynghylch beth mae'r prosiect yn ceisio'i gyflawni; a pha mor llwyddiannus ydy o wrth wneud hynny?**
  ***Pa mor dda mae'r prosiect wedi perfformio yn erbyn ei darged i wneud ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol?***

*Rhyfeddol o dda, gan ystyried Covid a phroblemau staffio.*
*Dyfalbarhad +++++*
*Mae'r adran yn fwy effeithiol ac mae hyn wedi cael ei sefydlu*
*Mae'n gysylltiedig â niwed arwyddocaol a mater Hawliau Dynol sylfaenol – hynny yw, preifatrwydd*
*Gan feddwl am y man cychwyn, mae hyn yn llwyddiant go iawn*
*Mae cefnogaeth Pennaeth y Gwasanaeth a'r Aelod o'r Cabinet wedi bod yn wych.*
*Mae pawb yn yr adran, ar bob lefel, yn rhan o hyn*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- **Beth sydd wedi mynd yn dda?**
  **Pa gryfderau sydd wedi dod i'r amlwg?**

***I ba raddau mae ymarferwyr yn defnyddio rhywfaint neu'r cyfan o ddulliau Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn eu gwaith bob dydd (oes yna gysylltiad rhwng dyheadau rheng flaen a dyheadau'r prosiect?)***

*Mentor Ymarfer a sesiynau unigol a grŵp yn cael eu cynnal.*
*Fe wnaeth pethau barhau er gwaetha'r rhwystrau ac mae wedi cael ei sefydlu ar bob lefel yn yr adran.*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- **Beth sydd wedi bod yn fwy anodd?**
  ***Beth ydy'r heriau?***

*Covid a phroblemau staffio*
*Asesu o bell, e.e. drwy fideo*
*Staff rheng flaen yn symud i swyddi datblygu*
*Mentor yn gadael heb i neb arall gael ei benodi'n llawn amser.*
*Rhai asiantaethau eraill ddim yn gweld y tu hwnt i'w pethau eu hunain*
*Mae darparu gwasanaethau a hybu gwelliannau'n waith caled*

--- 1 2-- 3 4 5 6 7 8 +++ 9 10

- **Beth sydd angen digwydd nesaf?**
  ***Pa anogaeth sydd yna ar gyfer y dyfodol? (argymhellion)*** *ar gyfer*
  - *cyfeiriad y prosiect drwyddo draw*
  - *meysydd penodol sydd angen sylw*

*Gorffen datblygu deunyddiau a gwybodaeth ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru a Chymru*
*H.y. Fideos – deunyddiau hyfforddi – Holi ac Ateb – Llyfr Gwaith ac ymarferion – Cwrs Risg*
*Sefydlu rôl y mentor fel nodwedd barhaus i gefnogi datblygiad gweithwyr*
*Derbyn y bydd gwaith datblygu arloesol fel hwn wastad yn anghyflawn a ddim yn gwbl drefnus.*

## Atodiad F (vi) **Sylwadau o'r cyfweliad:** *Dyma grynodeb o'r cyfweliad gyda Phennaeth y Gwasanaeth.*

*Yn lle sgorio elfennau unigol, penderfynais y byddai'n fwy buddiol cael trosolwg strategol o'r modd y mae Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi cael ei gyflwyno, sut mae'n gweithio'n ymarferol, yr adborth a gafwyd a beth ddylai ddigwydd nesaf.*

"Roedd penderfyniad yr uwch grŵp rheoli i gyflwyno a threialu 'Amddiffyn Plant yn Effeithiol' yn seiliedig ar lwyddiant y 'Model Risg' a'r gwersi a ddysgwyd ohono. Roedd penderfyniad, dyfalbarhad, sylw i fanylion ac ymrwymiad ar bob lefel i gyd yn hollbwysig.

Erbyn hyn, mae wedi'i sefydlu'n gadarn yng Ngwynedd ac mewn nifer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Lloegr.

Roedd y gwaith o'i gyflwyno a'i dreialu yn seiliedig ar ymarfer presennol da ac awydd i Wynedd barhau i fod yn arloesol a sicrhau gwelliannau o fewn prosesau Trawsnewid Cymru.

Roedd y penderfyniad i fwrw ymlaen gydag Amddiffyn Plant yn Effeithiol er gwaethaf covid yn bwysig gan nad oeddem am golli'r momentwm. Rhoddodd hyn lawer o bwysau ar y staff ond roedd y canlyniadau'n werth chweil.

**Adborth**

Mae wastad wedi bod yn anodd cynnwys rhai teuluoedd mewn prosesau amddiffyn plant, ac mae hyn yn debygol o barhau beth bynnag fo'r system.

Fodd bynnag, cafwyd adborth cadarnhaol am y gallu i osod camau clir er mwyn newid, a'r gallu i fesur y rhain, hyd yn oed os nad oeddent yn gweithio bob tro.

Ar ôl ymwneud â dau deulu fel rhan o'r broses gwyno, roedden nhw'n dweud eu bod yn teimlo'n bositif am y peth 'ysgol' 'na, sef camau tuag at newid, a hynny er y problemau. Roedden nhw'n dweud ei fod "wedi helpu go iawn. "Roedd 'na bethau bach roedd y gweithiwr cymdeithasol, yr ymwelydd iechyd a ninnau'n mynd i'w gwneud. Roedd torri'r rhain yn gamau bach yn gwneud popeth yn glir."

**Rhannu gwybodaeth**

Mae sawl cyflwyniad wedi cael ei wneud ac mae rhai o awdurdodau lleol Gogledd Cymru wedi dangos diddordeb. Roeddem yn awyddus i ddisgrifio a rhannu systemau a dysg ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru. Defnyddiwyd fideos o Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn dangos sut oedd yn cael ei ddefnyddio mewn cynadleddau.

**Y camau nesaf**

Dal ati i ddatblygu adnoddau ymarfer.

Defnyddio’r Gronfa Trawsnewid yn y gobaith o allu gwreiddio’r model a’i system gymorth gysylltiedig. Sefydlu mentora ymarfer.  Mae angen 2 swydd parhaol.

Wedi cytuno ar 4 swydd newydd, ar sail y dystiolaeth o ba mor gymhleth ydy achosion + 3 swydd dros dro + 2 weithiwr newydd dan hyfforddiant.

Mae niferoedd amddiffyn plant wedi gostwng. Mae cyswllt posib rhwng niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn gostwng, ond yn ddiogel.

## Atodiad G Data a Dadansoddi

**Set Ddata 1 (Diogelu 1 a 2)**

**Diogelu 1**

*Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol (a'r ateb wedi ei gofnodi)*

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Do | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Na | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

**Diogelu 2**

Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Oedd | 96% | 99% | 99% | 97% | 99% |
| Na | 4% | 1% | 1% | 3% | 1% |

| **Cynadleddau Achos Cychwynnol** | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | Ydy | Ydy |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy’r gynhadledd wedi nodi’r newid/newidiadau y mae angen i’r plentyn/teulu eu gwneud? | 100% | 94% |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy'r gynhadledd wedi nodi datganiad 2 ac 8 ar gyfer pob newid? | 86% | 75% |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy’r gynhadledd wedi gweithio mewn ffordd gydweithredol (er enghraifft, pawb yn parchu ei gilydd, pawb yn cael cyfle i gyfrannu, adeiladol, cydnabod cryfderau’r teulu)? | 78% | 67% |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy'r teulu/plentyn yn deall y newid/newidiadau sydd angen digwydd? | 75% | 69% |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy'r plentyn/teulu yn deall eu rhan yn y gwaith hwn? | 64% | 62% |
| | | |

| **Cynadleddau Adolygol** | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | Ydy | Ydy |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy’r gynhadledd wedi nodi’r newid/newidiadau y mae angen i’r plentyn/teulu eu gwneud? | 86% | 90% |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy’r risg o niwed arwyddocaol wedi cael ei leihau ers y gynhadledd ddiwethaf? | 68% | 66% |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy'r gynhadledd wedi nodi datganiad 2 ac 8 ar gyfer pob newid? | 75% | 71% |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy’r gynhadledd wedi gweithio mewn ffordd gydweithredol (er enghraifft, pawb yn parchu ei gilydd, pawb yn cael cyfle i gyfrannu, adeiladol, cydnabod cryfderau’r teulu)? | 84% | 87% |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy'r plentyn/teulu yn deall y newid/newidiadau sydd angen digwydd? | 81% | 86% |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy'r plentyn/teulu yn deall eu rhan yn y gwaith hwn? | 77% | 75% |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy'r plentyn/teulu yn gweithio ar y newid fel rhan o’r Grŵp Craidd? | 76% | 85% |
| Ym marn y Cadeirydd, ydy'r plentyn/teulu yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn effeithiol yn y Grŵp Craidd? | 76% | 85% |

| **Cynnydd wedi’i wirio mewn Cynadleddau Achos Adolygol** | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | Ydy | Ydy |
| Ydy'r Canlyniad/’Datganiad am newid[2]’ wedi cael ei gofnodi? | 89% | 98% |
| Mae’r sgôr[3] wedi gwella ers y gynhadledd ddiwethaf – Arfon | 66% | 56% |
| Mae’r sgôr wedi gwella ers y gynhadledd ddiwethaf – Dwyfor | 70% | 82% |

[2]*Y ‘Datganiad am newid’ ydy’r hyn sydd angen newid er mwyn cadw'r plentyn yn ddiogel.*

[3]*Y ‘Sgôr’ ydy'r cofnod o sgoriau rhwng 2 ac 8 yn yr Adroddiad.*

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r sgôr wedi gwella ers y gynhadledd ddiwethaf – Meirionnydd | 55% | 67% |
| *Er gwybodaeth – mewn achosion lle nad ydy'r sgoriau wedi cael eu cofnodi yn Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol i Gynhadledd Achos* | | |
| *Gwag (dim sgôr wedi'i rhoi) – Dwyfor* | *26%* | *27%* |
| *Gwag (dim sgôr wedi'i rhoi) – Meirionnydd* | *22%* | *6%* |
| *Gwag (dim sgôr wedi'i rhoi) – Arfon* | *17%* | *2%* |

# Gwerthusiad o Brosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol

Data 2020/21 a 2021/22 (hyd at fis Rhagfyr)

## Cyflwyniad

Mae'r Cadeirydd mewn Cynadleddau Achos yn monitro nifer o faterion perfformiad allweddol. Mae dwy set ddata allweddol yn berthnasol i Werthusiad Amddiffyn Plant yn Effeithiol.

Set Ddata 1 (Diogelu 1 a 2)

Set Ddata 2 (Data Monitro Amddiffyn Plant yn Effeithiol)

Mae'r rhain wedi bod yn eu lle ac yn cael eu monitro dros flynyddoedd lawer. Rydym yn darparu'r rhain ar gyfer ffigurau perfformiad y flwyddyn gyfan.

## Set Ddata 1 (Diogelu 1 a 2)

**Diogelu 1** – mae'n cael ei gasglu drwy gael dalenni i'r swyddfa ar ôl goruchwyliaeth gan reolwyr/gweithwyr cymdeithasol, yn cadarnhau pa lwythi achosion sydd wedi cael eu hystyried ar gyfer sgrinio risg. Pwrpas y data ydy annog cydymffurfiaeth. Mae'n ddull ychydig bach yn amheus gan mai dim ond y rhai sy'n dod i law y gallwn eu casglu, ac er ein bod ni'n cymryd camau dilynol, mae'n anodd cael set ddata lawn ar gyfer goruchwylio. Mae'n arwain at rywfaint o 'duedd eurgylch' neu 'halo bias'. Mae'r rhain sy'n anfon y ddalen i mewn wedi gwneud y gwaith sgrinio risg hefyd. Mae'r canlyniad wastad wedi bod yn 100%.

**Diogelu 2** – mae'n cael ei gasglu gan y Cadeirydd mewn Cynadleddau Achos, fel barn am ansawdd yr asesiad risg. Y pwrpas ydy gweld effaith rhoi'r Model Risg ar waith yn gyffredinol a defnydd o Risg 2 mewn Adroddiadau i Gynadleddau Achos. Mae hyn dros 95% yn gyson.

## Set Ddata 2 (Data Monitro Amddiffyn Plant yn Effeithiol)

Cyflwynwyd hyn yn fwy diweddar, unwaith eto fel rhan o rôl sicrhau ansawdd y Cadeirydd mewn Cynadleddau Achos. Byddant yn llenwi Adroddiad Monitro[4] ym mhob Cynhadledd Achos. Mae gwerth blwyddyn gyfan o ddata ar gyfer blwyddyn gyntaf COVID (2020/21) a chwarter perfformiad 1 i 3 o 2021/22. Rydw i'n meddwl ei fod yn dangos cysondeb a gwelliant cyffredinol.

Fodd bynnag, mae prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol wedi cael ei gyflwyno fesul cam. Ar y dechrau, rhoddwyd pwyslais ar Meirion/Dwyfor ac yna Derwen (plant gydag anableddau) a phlant 16+. Yn olaf, dau Dîm Arfon. Ychydig o waith Amddiffyn Plant y mae Derwen ac 16+ yn ei wneud o'i gymharu â Meirion/Dwyfor ac Arfon. Mae timau Arfon yn ddiddorol. Croeso llugoer gafodd y prosiect ar y dechrau, a bu dipyn o helynt staffio wedyn. Oherwydd hyn, roedd y prosiect yn anelu at ymgysylltu â'r Timau hynny ac yn codi momentwm pan ddigwyddodd COVID.

[4] Copi o'r ddogfen wedi'i hatodi i e-bost.

Rydym hefyd wedi gweld effaith cael dau gadeirydd Amddiffyn Plant, wrth i Sue Adams ymddeol ym mis Medi 2020 a Non Davies ein helpu fel Cadeirydd dros dro hyd at fis Rhagfyr 2021. Penodwyd Delyth Davies ond ni chafodd ei rhyddhau o'i rôl fel Swyddog Adolygu Annibynnol yn llawn tan yn ddiweddar.

Mae dwy daenlen fonitro Amddiffyn Plant yn Effeithiol ar gael, sy'n rhoi dadansoddiad mwy manwl o'r data hwnnw. O ran sut mae'r prosiect yn defnyddio'r data i reoli perfformiad a'r broses o roi ar waith, byddwn yn cadw golwg ar Diogelu 1 a 2 am rai blynyddoedd. Dydy Monitro Amddiffyn Plant yn Effeithiol ddim mor ddefnyddio fel adroddiad perfformiad. Mae'r manylion yn arwain at lawer o gwestiynau. Fodd bynnag, effaith casglu data ydy ei fod yn tynnu sylw Cadeiryddion yn gyson at yr hyn sy'n bwysig i allu adrodd yn ei gylch. Felly, byddant yn cadw hyn mewn cof. Yn fwy na dim, mae'n gwella eu heffaith o ran rheoli materion Amddiffyn Plant yn Effeithiol mewn cynadleddau a sut maent yn strwythuro'r trafodaethau a'r heriau. Dyna beth ydy bwriad y gwaith monitro; yn ogystal, wrth gwrs, â darparu rhywfaint o ddata at ddibenion gwerthuso.

Dafydd Paul

Uwch Reolwr Diogelu

16/02/2022